

CLONC

www.clonc.co.uk - Yn aelod o Fforwm Papurau Bro Ceredigion

ISSN 1753-1071



9 771753 107001 >

Rhifyn 333 - 60c
Mai 2015

Papur Bro ardal plwyfi: Cellan, Llanbedr Pont Steffan, Llanbedr Wledig, Llanfair Clydogau, Llangybi, Llanllwni, Llanwenog, Llanwnnen, Llanybydder, Llanycrwys ac Uwch Gaeo a Phencarreg

Lluniau Rali CFfi Sir Gâr



Tudalen 10

Llwyddiannau rhedwyr Sarn Helen



Tudalennau 16 a 17

Lluniau a chyfansoddiadau Capel y Groes



Tudalennau 20 a 24



Ben, Arwel, Carwyn a Ffion CFfi Llanllwni a ddaeth yn bedwerydd yng Nghymru yng nghystadlaethau effeithiolrwydd a diogelwch.

Y Parchg Ganon Brendan O'Malley yn ailgysegru caeau chwarae coffa Llanbedr Pont Steffan. Adroddiad tudalen 16.



Noson lansio gwefan cymunedol newydd www.clonc360.cymru



Clonc 360

Cysylltiadau:
Ddnc: Clonc i ymweithio a gwefan Clonc
Ddnc: Clonc i ymweithio a gwefan Clonc

Ar y 13eg Ebrill 2015, lansiwyd gwefan cymunedol newydd i'r ardal hon. Dyma fenter newydd rhwng gwirfoddolwyr Papur Bro Clonc a Newyddion Golwg360. Dyma rai o'r straeon o ymddangosodd ar y wefan yn y dyddiau cynnar. Gall unrhywun gyfrannu stori. Mae'n hawdd. Cofrestrwch ar: www.clonc360.cymru



Urddo Maer newydd tref Llanbedr

Nos Wener, 1 Mai 2015, cynhaliwyd seremoni Urddo'r Maer newydd yn Neuadd yr Hen Goleg, Llanbedr

Posted by: [Delyth Phillips](#)
3/5/2015



Taith Dros Fywyd

Ar fore ddydd Sul, Ebrill 26ain tyrrodd hanner cant o bentrefwyr Plwyf Llanwenog a thu hwnt i

Posted by: [Gwennan Jenkins](#)
26/4/2015



Beth yw dyfodol Cymanfaoedd Canu?

Mae'n dymor y Cymanfaoedd Canu. Ond beth yw cyflwr y cymanfaoedd erbyn heddiw? Faint o ddarlennwyr

Posted by: [Dylan Lewis](#)



Cadeirydd Newydd i'r Ford Gron

Dyn o Los Angeles yw cadeirydd newydd Ford Gron Llanbedr Pont Steffan, Mewn cinio nos Fawrth

Posted by: [Rob Phillips](#)
23/4/2015



Agoriad Swyddogol Clwb Bowlio Llanbedr

Cynhaliwyd agoriad swyddogol Clwb Bowlio Llanbedr ddydd Sul, 19 Ebrill, gyda Maer a Maeres y dre yn

Posted by: [Alis Butten](#)
20/4/2015



Sgandal Parcio Llanbedr

Ers i'r Cyngor Sir gyflwyno taliadau parcio ar y Cwmins yn Llanbedr, ychydig iawn o bobl

Posted by: [Dylan Lewis](#)
19/4/2015



Bingo llwyddiannus yng Nghwrtnewydd

Cynhaliwyd noson bingo llwyddiannus yn Ysgol Cwrtnewydd nos Wener, Ebrill 17eg i godi arian tuag at

Posted by: [Nia Wyn Davies](#)
17/4/2015



Dartiau yn Llanbedr

Nos Sadwrn 28fed o Fawrth gwnaeth Cyngorhau Dartiau Llanbedr a'r 'Esgob o Bedlam' gynnal noson wych o

Posted by: [Bedwyr Davies](#)
14/4/2015



Teifi 10 - Clwb Rhedeg Sarn Helen

Ras Teifi 10 Ar brynawn Sul y Pasg heulog, Ebrill y Sed, daeth torf o 125

Posted by: [Sian Roberts-Jones](#)
13/4/2015



ESTRONS

Bu'n ddiwrnod hanesyddol i Rhodri Daniel, Llysbarcud Cellan, Ebrill y 6ed eleni. Cafodd sengl cyntaf Saesneg

Posted by: [Iena daniel](#)
13/4/2015



www.facebook.com/clonc360



[@Clonc360](https://twitter.com/Clonc360)

Rhannwch eich newyddion lleol gyda Phapur Bro Clonc.



Trydarodd
[@Clonc360](#)
Ebrill 18

Llongyfarchiadau i bawb a fu'n trefnu digwyddiad mor fawr â [#SioeFeirch](#) [#Llanbedr](#).

Hoffi . Gwneud Sylw . Rhannu



Aildrydarodd
[@Clonc360](#) neges
[@SulwenMair](#)
Ebrill 16

Gêm hoci chweched [@YsgolBroPedr](#) i godi arian i [@amserjustintime](#)

Hoffi . Gwneud Sylw . Rhannu



Aildrydarodd
[@Clonc360](#) neges
[@cfillanwenog](#)
Ebrill 13

Criw gala nofio heno. Gwd job bois! [@CeredigionYFC](#)

Hoffi . Gwneud Sylw . Rhannu



Trydarodd
[@Clonc360](#)
Ebrill 12

Dros £400 wedi codi mewn Cwis yn Festri Brondeifi ar gyfer taith [@WalesTouch](#) Iwan Evans, Gorsgoch.

Hoffi . Gwneud Sylw . Rhannu



Trydarodd
[@Clonc360](#)
Ebrill 12

Da iawn i bawb a gymerodd ran yn Nheithiau Beicio [@ClwbSarnHelen](#) bore ma.

Hoffi . Gwneud Sylw . Rhannu



Aildrydarodd
[@Clonc360](#) neges
[@CFfICwmann](#)
Ebrill 11

Diolch i bawb a ddaeth i gefnogi Rasys Moch neithiwr.

Hoffi . Gwneud Sylw . Rhannu

Pwy yw pwy?

Beth yw beth?

Golygydd:

Mai Delyth Phillips, Llety Clyd, Llanbedd 422992
Mehefin Marian Morgan, Rhyd-y-felin, Drefach 481855
e-bost: golygydd@clonc.co.uk

Tîm Golygyddol Elaine Davies, Dylan Lewis,
Marian Morgan a Delyth Morgans Phillips

Dylunydd y mis Dylan Lewis, Tŷ Cerrig, Cwmann 422349
Swyddog Dosbarthu Eifion Davies, Afallon, Drefach 480590
e-bost: bedwyr@btopenworld.com
Teipydd Nia Davies, Maesglas, Drefach 480015

Gohebwyr Lleol:

Cellan Alwen Edwards, Awel Teifi 421001
Cwmann Gwyneth Morgan, Llety'r Dderwen 422922
Cwmsychbant Mary Davies, Maesglas, Drefach 480015
Llanwenog/Drefach Mary Davies neu Eifion Davies
Ffaldybrenin/Ffarmers Elfyn Davies, Troed y bryn, Ffarmers 01558 650507
Gorsgoch Eiddwen Hatcher, Tafarn Cefnhafof 434238
Llanbedd Janet Evans, Haulfryn 422856
Llanfair Dan ac Aerwen Griffiths, Pengarn 493407
Llangybi a Betws Mair Spate, Tŷ Capel Maesyffynnon 493325
Llanllwni Dewi Davies, Glanafon 480218
Llanwnnen Elin Thomas, 1 Teras Sycamor 480239
Llanybydder Menna Jones, Ceginau Lifestyle 480257
Pencarreg Lynda Thomas, Dolgwm Uchaf 422270

Bwrdd Busnes:

Cadeirydd Dylan Lewis, Tŷ Cerrig, Cwmann 422349
e-bost: cadeirydd@clonc.co.uk
Is-Gadeirydd Marian Morgan, Rhyd-y-felin, Drefach 481855
Ysgrifenyddes Mary Davies, Maesglas, Drefach 480015
Trysorydd Nia Davies, Maesglas, Drefach 480015
e-bost: ysgrifennydd@clonc.co.uk

Ffotograffydd Tim Jones, Llainwen, Llambed 422644
Argraffwyr Gwasg Aeron, Aberaeron 01545 570573

- Mae Clonc yn aelod o Fforwm Papurau Bro Ceredigion.
- Gwerthfawrogi gwaith pob gwirfoddolwr a sicrhodd ymddangosiad y rhifyn hwn o Clonc. Os hoffai eraill ymuno â'r tîm, cysylltwch ag aelod o'r bwrdd busnes.
- Y mae pawb sy'n ymwneud â Phapur Bro Clonc yn gwneud hynny'n wirfoddol ac yn ddi-dâl er budd y gymuned leol. Nhw fel unigolion sy'n derbyn pob risg a chyfrifoldeb (cyfreithiol ac fel arall) gan dderbyn mai ar y telerau hynny y maent yn cyfrannu at y papur a'i ddosbarthiad.
- Sicrhewch newyddion eich ardal chi yn Clonc. Peidiwch â meddwl y bydd rhywun arall yn gwneud. Mae'n rhy hwyr i feio neb os nad yw rhyweth yn ymddangos yn Clonc.
- Ewch â'ch newyddion at eich gohebydd lleol, neu e-bostio golygydd@clonc.co.uk
- Gallwch adael newyddion a lluniau yn Crown Stores, Y Stryd Fawr, Llanbedr Pont Steffan.
- E-bostiwch eich eitemau ar gyfer y dyddiadur i ysgrifennydd@clonc.co.uk
- Defnyddiwch luniau o gamera cyffredin lliw, a du a gwyn. Ni fyddwn yn dychwelyd lluniau os na fyddwch wedi gwneud cais am hyn ar gefn y llun. Croesawn luniau digidol ar CD, cofbin USB, ac e-bost cadeirydd@clonc.co.uk
- Sicrhewch fod gennych ganiatad rhieni cyn tynnu lluniau plant i'w cynnwys yn Clonc. Rhoddir rhifynnau Clonc ar y wefan maes o law.
- Gofynnwn am dâl o £5.00 am roi "Diolch" yn y papur. Gellir tanysgrifio i Clonc am £17.50.
- Nid yw'r golygydd o reidrwydd yn cytuno ag unrhyw farn yn y papur hwn.

Siprys

Etholiad - cyffredin?

Erbyn y byddwch chi'n darllen hwn, bydd yr Etholiad Cyffredinol wedi mynd a dod. Mae'n siŵr y byddwn yn gwybod pwy fydd yn arwain gwledydd Prydain am y pum mlynedd nesaf, a pha bleidiau fydd mewn grym yn San Steffan.

Beth amdanoch chi - a ydych chi'n teimlo bod yr ymgyrch etholiadol wedi bod yn ddiflas? Meddai'r newyddiadurwr Ifan Morgan Jones ar twitter (mae Ifan yn gyn olygydd Golwg, ac yn byw yn etholaeth Ceredigion): "Wn i ddim pam fod cymaint o ohebwyr o'r farn bod yr etholiad hwn yn ddiflas. Dyma, o bosib, yr etholiad mwyaf cyffrous yn ein bywydau."

Beth sy'n gwneud yr ymgyrchu y tro hwn mor wahanol felly? I ni sydd ar-lein ac sy'n dilyn y trafod ar twitter a facebook, mae hynny'n sicr yn ychwanegu at y cynnwrf. Mae newyddion a straeon am wahanol bleidiau ac ymgeiswyr ar gael yn syth bin, heb inni orfod aros i wyllo bwletinau newyddion ar y radio a theledu, neu'u darllen mewn print yn ein papurau newydd. (Mater arall yw gogwydd ac agenda'r wasg a'r cyfryngau - lleol a chenedlaethol - tuag at bleidiau penodol, a pha mor ddibynadwy ydyn nhw fel ffynhonnell wybodaeth.)

Efallai fy mod i'n lwcus fod gen i ddiddordeb mewn gwleidyddiaeth ers yn blentyn ysgol. Alla'i ddim honni fy mod i'n anorac gwleidyddol - mae lot o'r trafod yn mynd y tu hwnt i nealltwriaeth i - ond mae fy naliadau a democratiaeth yn bwysig i fi. Dyna pam nad oeddwn i'n gallu deall sylwadau un cymeriad o Geredigion ar Taro'r Post: roedd e'n cwyno nad oedd dim un ymgeisydd wedi galw heibio iddo i ganfasio. Ond ar yr un gwynt, roedd yn mynnu nad oedd eisiau gweld yr un ohonyn nhw chwaith! Allwch chi ddim ei chael hi bob ffordd.

Gobeithio eich bod i gyd wedi manteisio ar y cyfle a'r fraint i fwrw pleidlais. Gobeithio hefyd y gwelwn ffrwyth llafur llywodraeth nesaf San Steffan yma yng nghefn gwlad Cymru, ac y cawn ein trin yn anrhydeddus fel cenedl.

Cloncen



Colofn Cefn Gwlad gan Helen Howells

Dant y Llew

Rwyf wedi sylwi ar lwyth o ddant y llew eleni. Mae'r cae gyferbyn â'n pen-hewl ni yn felyn â'r holl flodau! Mae'r enw Dant y Llew yn debyg iawn i'r enw Ffrengig am y blodyn, dente-de-lion, ac yn ymwneud â siâp y dail, sydd â dannedd siarp yn debyg i rai llew. Mae yna enw mwy newydd yn Ffrangeg am y blodyn - pissenlit - sy'n golygu i 'wlychu'r gwely', ac yn berthnasol i rinweddau meddygol y planhigyn fel diwretig.

Mae pob darn o'r planhigyn yn fwyadwy, ac mae'r dail yn gwneud ychwanegiad hyfryd mewn salad. Mae'r dail ifanc yn ddelfrydol at bwrpas salad ffres, ond gellir defnyddio dail aeddfed yn yr un modd y byddech yn defnyddio ysbigoglys (spinach). Mae'r blodau melyn yn ychwanegiad hyfryd at salad ffres, ond gellir hefyd eu defnyddio mewn prydiau melys gyda phancws, jeli a threiff! Gellir gwneud rhyw fath o goffi allan o'r gwreiddiau os ydych chiwnt arbrofi.

Mae gan ddant y llew rhinweddau meddygol arbennig. Mae'n ddiwretig naturiol a gellir ei ddefnyddio i drin dargadwedd dŵr ac yn gallu helpu gyda 'cellulite'. Mae'r un rhinweddau yn gallu helpu'r corff i waredu tocsinau, gan gynnwys acid uric, gan esmwytho symptomau gwynegon a gowt. Gellir gwneud te dant y llew yn hawdd iawn, gan roi llond llaw o ddail wedi'i olchi i mewn i debot, ei dywallt â dŵr berw, a gadael iddo ffrwytho am 5 munud. Gellir ychwanegu mêl i'w flasau. Mae'r nodd llaethog o goesau'r planhigyn yn gallu helpu i waredu dafadennau, ac rwyf wedi clywed gan sawl person ei fod wedi dod â gwellhad iddynt.

Mae yna sawl traddodiad gwerinol yn ymwneud â dant y llew. Mae plant yn chwarae ac yn chwythu'r pen hadau gan wneud dymuniadau. Credir hefyd os ydych chi rhoi'r blodyn o dan eich gêl, ac os wneith y croen ymddangos yn felyn, iddo fod yn arwydd y byddwch yn gyfoethog rhyw ddiwrnod. Mae'r arferion yma'n mynd yn ôl i'r canol oesoedd.

Cred rhai bod dant y llew yn symbol ysbrydol yn ymwneud â thrawsnewidiad. Datblygir y blodau i fod yn hadau mân y gellir eu chwythu at bob cwr o'r byd mewn byr o amser, sy'n arwyddocaol o symud ymlaen mewn bywyd. Os oes gennych chi arferiad gwael yr hoffech ei waredu, dychmygwch y peth fel pen-hâd dant y llew a'i chwythu oddi wrthoch chi at y bydysawd!

Efallai bydd y storïau bach yma'n gwneud i chi ail-feddwl am rinweddau'r blodyn y tro nesaf y byddwch yn halio'i wreiddiau cryf allan o'ch border!



TEIARS
HUW LEWIS
TYRES

TEIARS
BREGS
BATRIS
GWACAWYR

HUWLEWISTYRES.COM
LLANBEDR PONT STEFFAN
01570 422221

Weldio D & W Welding

01570481153 / 07915543623

Caerwenog,
Penffordd,
Llanbydder,
Ceredigion.
SA40 9XG

**Darparu gathau a rheiliau
haearn ac hefyd eich holl
waith weldio ac atgyweirio**

Mwnici ffwnci

Brodweithio
a Phrintio Dillad.
Darparu
Dillad Gwaith
a Hamdden.

**Sioned Green
a Mared Jones**
Nantgwyn,
Heol Llanfair
Llambod
01570 423135
07811917799 /
07968821035
mwniciffwnci@hotmail.com

**Gwasanaethau Coed
Teifi
Tree Services**



Pob math o waith ar goed
Torri cloddiau * Plygu cloddiau
Wedi yswirio'n llawn
Dyfynbris am ddim
Coed tân ar werth
Lyn Davies
01239 851001 / 07796 682448

Sefydlwyd 1797

D. Lloyd a'i Feibion
Glanrwyth, Pumsaint,
Ffôn: 01558 650209 a 650451,
Ffacs: 01558 650440

**Masnachwyr coed
a nwyddau adeiladu
a ffensio o bob math
Glo caled a glo meddal
o'r ansawdd gorau**

Dyddiadur

ysgrifennydd@clonc.co.uk

MAI

7 – 10 Recordio Noson Lawen (S4C) Canolfan Hamdden Llambod.
8 – 9 Cyngerdd Tri Tenor Cymru yn Theatr Felinfach.
8 Helfa Drysor CFfi Llanllwni am 6.00yh.
9 Miri Mai Ysgol Carreg Hirfaen yn Neuadd Sant Iago Cwmann 7yh.
9 Marchnad y Bobl yn Neuadd Fictoria Llanbed 10 - 1.00 o'r gloch.
11 Cyfarfod Agored Coedwig Gymunedol Longwood yn Neuadd Fictoria Llanbed am 7.30yh.
12 Pwyllgor Blynnyddol CLONC yn Nhafarn Cwmann am 7.00y.h.
13 Taith Cymdeithas Hŷn Drefach i weld Castell Aberteifi 480590.
15 Noson Goffi Pwyllgor Buddiannau Henoed Llanybydder yn Festri Aberduar am 7.00y.h.
16 Marchnad cynnyrch, crefftau a nwyddau ail law yn Neuadd Bentreff Llanfair Clydogau 3 - 6.00 o'r gloch.
17 Cymanfa Ganu'r Bedyddwyr Caersalem Parcyrrhos am 2.30y.p.
17 Cymanfa Ganu Pencader a'r Cylch yng Nghapel Nonni, Llanllwni am 2.00y.p. a 5.00y.p. Arweinydd: Mr Martin Griffiths, Llandysul.
19 Cymdeithas Hanes Llanbed am 7.30yh yn Hen Neuadd y Coleg gyda John Morgan Guy yn rhoi hanes Syr Galahad a'r Rhyfel Byd Cyntaf.
22 Ras y Llychau, Tallyllychau. Rasmus i blant ac oedolion. Dechrau 6.30yh
23 Carnifal Cwmann ar gaeau'r Pentref.
23 Noson Lawen 60 mlynedd Undeb Amaethwyr Cymru yn Neuadd Y Drindod Dewi Sant Llanbed 7.30y.h. Tocynnau o'r swyddfa: 422556.
23 - Marchnad y Bobl yn Neuadd Fictoria Llanbed 10 - 1.00 o'r gloch.
24 Taith Tractorau Drefach. Gadael Caeau Maesyronnen am 10.30y.b.
Elw at Ambiwylans Awyr Cymru a Chlwb Cledlyn. 434342 neu 481121.
24 Cymanfa Ganu'r Annibynwyr yn Shiloh, Llambod am 5.00y.h.
25 Arwerthiant Cist Car ym Mhumsaint 10yb - 1yp. £5 y car. Trefnir gan gangen Pumsaint o Sefydliad y Merched.

MEHEFIN

5 Gŵyl Gwrw Llanfair Clydogau yn Neuadd y Pentref am 4.00yp.
6 Rali C.Ff.I. Ceredigion yn Llanddewi Brefi.
7 Cymanfa Ganu'r Rali yng Nghapel Bethesda, Llanddewi Brefi.
8 Amgueddfa Llambod: diwrnod o brisio'ch trysorau am ddim gan Peter Francis, Caerfyrddin 11yb – 3 yp.
21 Cyngerdd yng Nghapel Maesyffynnon, Llanybydder gan Gôr Clychau'r Fedwen am 7.30y.h. Elw tuag at y capel. Mynediad £5.
26 Rasys Sarn Helen yn Ysgol Felinfach.
27 Carnifal Llanybydder ar y Caeau Rygbi am 1.00yp.

GORFFENNAF

4 Corisma, Cacen a Chân - Grêt Welsh Bêc Off! Cae Canolfan Gymunedol Cwmann am 2.00yp.
10 Twrnament Pêl-droed 5 bob ochr ar Gae Chwarae Llanllwni.
11 Diwrnod Hwyl ar Gae Chwarae Llanllwni.
11 Mabolgampau Blynnyddol Pentref Cwrtnwydd.
12 Helfa Drysor ar gae chwarae Llanllwni.
18 Cneifio Llambod ar fferm Capeli i ddechrau am 8.30y.b.
25 Ffair Fwyd Llanbed ar dir Prifysgol y Drindod Dewi Sant, Llanbed.

AWST

1 Carnifal Llanbed. Thema: Cartŵns.
8 Sioe a Threialon Cŵn Defaid Cwmsychpant.
14 Sioe Amaethyddol Llanbed.
15 Sioe Gorsgoch a C.Ff.I. Llanwenog ar gaeau Glwydwern gydag Eisteddfod Ddwl yn dechrau am 8yh ym mhabel y Sioe.
29 a 31 Eisteddfod Rhys Thomas James Llanbed.

MEDI

6 Dathlu 175 Capel Bethel Parcyrrhos.
12 Ffair Ram ar gaeau pentref Cwmann.
21 Cyfarfod Fforwm Papurau Bro Ceredigion yn Felinfach am 7.00yh.
23 Meistri'r Dartiau gyda Gary Anderson, Tony O'Shea, Michael Smith a Darryl Fitton yn Neuadd Fictoria, Llanbed. Tocynnau: 423683.

HYDREF

14 Cwrdd Diolchgarwch Bethel Parcyrrhos am 7yh gyda Gwyn Elfyn.
16 Eisteddfod Ddwl Papurau Bro Ceredigion yn Neuadd Felinfach.
9, 16 a 17 Eisteddfod C.Ff.I. Sir Gaerfyrddin yn Neuadd San Pedr.
29 a 31 Eisteddfod C.Ff.I. Ceredigion.

TACHWEDD

21 Eisteddfod C.Ff.I. Cymru yng Nghanolfan Celfyddydau, Aberystwyth.

Clwb Clonc

Mai 2015

£25 rhif 6 :
Myfanwy Bryce,
20 Penbryn, Llambod.
£20 rhif 305 :
P. Ann Jones,
Clifton, Pencader.
£15 rhif 352 :
Bethan Lewis,
18 Heol Hathren, Cwmann.
£10 rhif 308 :
Eric Jones,
Hafod-yr-ŵyn, Gorsgoch.
£10 rhif 286 :
Kevin ac Elin Jones,
Cae'r Nant, Cwmann.
£10 rhif 205 :
Llion Herbert,
4 Cysgod y Coed, Cwmann.
£5 rhif 473 :
Siriol Thomas,
10 Llys Myrddin, Caerfyrddin.

Pencarreg

Diolch

Dymuna Audrey Pencarreg ddiolch i'w theulu, ffrindiau a chymdogion a fu'n ymweld â hi yn yr ysbyty ac wedi iddi ddod adref. Diolch hefyd am y cardiau, blodau a'r anrhegion a dderbyniodd yn ystod y tri mis a dreuliodd yn yr ysbyty. Gwerthfawrogi'r cyfan yn fawr iawn. Diolch.

Alltyblaca

Dathlu

Dathlodd Gary Jones, Ffinant ei ben-blwydd yn 40 oed ddechrau mis Ebrill. Gobeithio dy fod wedi mwynhau'r dathlu.

Hunangofiant

Yn dilyn yr ymateb hynod ffafriol a fu i'r ddwy bennod gyntaf o'r Hunangofiant a ymddangosodd yn y rhifynnau diweddaraf o Clonc mae Tommy Williams, Alltyblaca wedi penderfynu mynd ati i gyhoeddi llyfr o'i atgofion. Ni fydd y penodau nesaf yn cael eu cyhoeddi felly yn Clonc. Y gobaith yw bydd y llyfr ar werth yn y siopau lleol erbyn misoedd yr Hydref. Mawr yw'r edrych ymlaen amdano.

Bydd manylion y cyhoeddi i'w gweld yn rhifynnau nesaf Clonc.

**I'w Rhentu
Tŷ Capel Alltyblaca**

2 Ystafell Wely, Gwres Canolog,
Ffenestri gwydr dwbwl,
Lle Parcio, Rhent Rhesymol

Ffoniwch David Williams am
ragor o fanylion:
01570 422429

Cefn Hafo Gorsgoch



01570 434238

Cyri bob nos Wener
£6 y pen

Croeso cynnes i bawb!

**W.D.
Lewis**
a'l Fab

Maznachwyr Amaethyddol
Agricultural Merchants

Melin Mark Lane Mill
Llanbedr Pont Steffan
Ceredigion SA48 7AG
Tel: 01570 422540
Fax: 01570 423644
www.wdlewies.co.uk

Hefyd yn
Broneb Stores
Pumsaint, Llanwrda
Tel: 01558 650215



Cegin Coedlannau

*'Bwyd cartref ar gyfer
pob achlysur'*

* Cacenau pen-blwydd gyda llun
(ffotograff)

* Bwffe mawr neu fach

* Danteithion i de

* Pwdinau

* Arlwyio ar gyfer pob achlysur



**Sirian Davies, Coedlannau
Fach, Cwrtnewydd,
01570 434 243
07815 962 045**

Alec Page Gof



Gwaith metal o safon
i'r tŷ a'r ardd.

Dewch i drafod eich syniadau.

Yr Efail, Barley Mow,
Llambled.

01570 423955

www.alecpageblacksmith.co.uk

WILLIAMS & BOURNE

CYFREITHWYR.
COMISIYNYR LLWON

Trosglwyddiadau a phob
gwasanaeth cyfreithiol.
Ymweliadau â'r cartref yn bosibl.

**1 Sgwâr Harford,
Llambled**

☎ 01570 422206 ☎ 01570423540

A thrwy apwyntiadau yn Nhregaron, Llanybydder,
Castell Newydd Emlyn a Chaerfyrddin.

Cwmann

Dosbarth Derbyn Ysgol Carreg Hirfaen yn ymweld â'r ysgol newydd.
Mae'r gwaith yn mynd yn ei flaen a gobeithio y bydd yn agor gwanwyn
2016. Bydd lle i tua 180 o blant a chyfleusterau i bobl leol eu defnyddio.



Cerddwyr Cwmann ger Ysgol Carreg Hirfaen ar ddiwrnod Taith Dros
Fywyd Sefydliad Aren Cymru, taith a drefnwyd gan Phillip a Cerys Lodwick.

223. 9. Miss Rhiannon Lewis,
Tanlan, Cwmann, 126. 10. Mr a Mrs
Kidby, Erwaun, Parcyrrhos.

Gwellhad Buan

Dymunwn wellhad buan i Carwyn
Lewis, 18 Heol Hathren ar ôl ei
anffawd yn chwarae rygbi yn
ddiweddar. Gobeithio y byddi di'n
well yn glou.

Cylch Meithrin Coedmor

Dymuna'r Cylch Meithrin ddiolch
i bawb sydd wedi cynorthwyo yn
eu hymgyrchoedd i godi arian dros
y chwe mis diwethaf. Drwy gynnal
raffl fawr dros y Nadolig, diwrnod
hwyl adeg y Pasg, a phartïon Body
Shop, mae £1,772.95 wedi dod i'r
coffrau.

Cynhelir Cyfarfod Cyffredinol
Blynnyddol y Cylch ym mis
Mehefin. Gwahoddir rhieni a
chefnogwyr i fod yn bresennol, a
chyfrannu syniadau. Rydym bob
amser yn falch o gael ffrindiau
newydd ar y pwyllgor, ac i
gynorthwyo gyda'r ymdrechion i
godi arian i gadw'r Cylch Meithrin
i fynd. Heb help rhieni, staff a
ffrindiau, byddai'n amhosibl
darparu'r addysg gynnar yma sydd
mor fuddiol i'r plant lleiaf yn ardal
Cwmann a'r pentrefi cyfagos.

Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau i Gwenllian
Llwyd, Croesor am basio Gradd 1 ar
y piano yn ddiweddar.

Sefydliad y Merched

Cynhaliwyd cyfarfod mis Ebrill
nos Fawrth y 7fed yn festri Capel
Bethel gyda'n llywydd Noelene yn y
gadair. Cydymdeimlodd â Mary sydd
wedi colli ei mam yn ddiweddar.
Cyflwynodd ein gwraig wadd sef
Mrs Teresa Morgan o Drimsaran
a'i ffrind Gwenda. Gweithio yn y
bwyty'n yr ysgol mae Teresa ond
wedi bod â diddordeb mewn arlunio
a chreffft ar hyd ei bywyd, ac mae'n
hoff o arbrofi ffyrdd newydd a
gwahanol o arlunio. Dangosodd i ni
sut i wneud Encaustic Art lle mae
cwyrr poeth a haearn smwddio yn
cael eu defnyddio i greu tirluniau, ac
roedd ei gwaith yn fendigedig.

Diolchodd Joyce iddi am roi noson
ddiddorol dros ben i ni.

Rhoddodd Teresa dri cherdyn o'i
gwaith at y raffl a'r tair lwcus oedd
Noelen, Veronica a Mary. Enillydd y
raffl fisol oedd Marian. Ar ôl cwpaned
o de wedi'i baratoi gan Joyce a Marian
cynhaliwyd y cyfarfod busnes.

Diolchodd Mary i bawb am eu
cydymdeimlad a'u cefnogaeth yn
dilyn colli ei mam. Derbyniwyd
llythyr oddi wrth Lyn Thomas a'r teulu
yn diolch am y cyfraniad ariannol at
elusen Running with Nancy.

Diolchodd Noelene i bawb am
eu cyfraniad a'u cefnogaeth yn
paratoi bwyd ar Noson Grŵp Teifi.
Cafwyd noson dda yn nghwmni
Garry Owen, y cyflwynydd radio a
theledu. Anfonwyd £62:70 o elw at y
Ffederasiwn.



Sasha Tonks sydd wedi ennill ei gwregys du mewn Karate yn y KUGB Grading yn Holywell.



Elan Jones sydd wedi cael ei dewis i fod yn aelod o Gôr Only Kids Aloud.



Aisvarya Sridar, Mererid Thomas, Rosie Nasr-Butler a Rafiq Ali Clwb Bonjour yr ysgol.

Campws Iau

Cafwyd prynhawn o ddawnsio brwd mewn disgo a drefnwyd gan Gyngor Dref Llambled. Diolch iddynt am eu cefnogaeth ac am drefnu'r disgo a'r lluniaeth ysgafn.

Da iawn bawb a fynychodd cystadleuaeth rygbi'r Urdd sef Owen, Ifan, Connor, Nathan, Owain, Justin, Danny, Tomi, Callum, Sam, Rhun, Elwyn, Daniel, Dewi, Meilyr, Simon a Wyn – daliwch ati bois a diolch i Mr Thomas a Miss Claire am eich paratoi.

Daeth llwyddiant i nifer o ddisgyblion y campws a fu'n llefaru a chanu yn Eisteddfod Capel y Groes a llongyfarchiadau arbennig i barti unsain yr ysgol dan arweinyddiaeth Lowri am ennill y gystadleuaeth a hynny am yr ail flwyddyn yn olynol. Diolch i Lowri am hyfforddi'r parti– rydym yn gwerthfawrogi hyn yn fawr.

Llongyfarchiadau i Mr Thomas a Miss Davies ar enedigaeth bachgen bach sef Cai, a dymunwn yn dda iddynt fel teulu.

Cafodd timau pêl-droed yr ysgol gyfle i gystadlu yng nghystadleuaeth pêl-droed yr Urdd yn ddiweddar a chael diwrnod pleserus tu hwnt. Da iawn chi Nia, Lexie, Shannon, Joanna, Karina, Chloe, Lucy, Wiktoria Szydłowska, Sioned a Siriol, Owen, Simon, Ifan, Tomi, Connor, Justin, Nathan, Rhun a diolch i Mr John a Mr Davies am eu hyfforddi.

Bu Miss Ting yn gwneud gwaith Celf gyda disgyblion blynyddoedd 3 a 4 a chafwyd llawer o hwyl yn creu llusernau hardd.

Daeth boc rhifedd o Techniquet i'r ysgol a bu disgyblion Cyfnod Allweddol 2 yn brysur yn datrys amryw o broblemau.

Cafodd disgyblion blynyddoedd 1 a 2 gyfleoedd i ddysgu sgiliau rygbi mewn sesiynau a gynhaliwyd gan Rhydian – diolch iddo am dod atom.

Yng nghystadleuaeth trawsgwlad y cylch daeth nifer o ddisgyblion yr ysgol i'r brig. Diolch i Mr John am drefnu'r cyfan ac i Mr Roderick a Miss Claire am eu cymorth ar y diwrnod. Llongyfarchiadau gwresog i: Blwyddyn 3 – Rhun Davies 4ydd, Immanuel Ologun 8fed, Jake Jones 6ed, Antoni Bydlowski 11, Brynmor Gibbons 7fed, Jessica Thomas 4ydd, Molly Burgess 6ed, Grace Lambert 9fed, Sara Jones 10fed Blwyddyn 4 – Vince Mason 4ydd, Dylan Griffiths 9fed, Archie Millichap 8fed, Isaac Price 14 ed, Hywel Jones 10fed, Jessica McKay 1af, Faye Jones 2ail, Evie Mackay 4ydd, Tia Jones 7fed, Niah Bouvet 11 Blwyddyn 5 – Rhys Tom – 2ail, Elwyn Carrington 5ed, George Condon 10fed, Justin Guest 9fed, Tomi Williams 11fed, Annabel Hunt 3ydd, Emilia Budyłowsks 5ed, Marnie Tiffany 6ed, Aimie Methuen 7fed, Kodi Nisbet 12 Blwyddyn 6 Owen Rowcliffe 1af, Nathan Davies 11, Kacper Paszek 15, Connor Jones 12, Lucy Davies 2ail, Annabella Gibbons 4ydd, Catrin Lewes 7fed, Naomi Finch 9fed.

Campws Hŷn

Llongyfarchiadau mawr i Beca Jones ac Elan Jones o 7 Dewi sydd wedi cael eu derbyn i fod yn aelodau o'r côr adnabyddus Only Kids Aloud. Da iawn chi ferched!

Ar ddydd Mawrth Ebrill 21ain, bu disgyblion o flwyddyn 11 i Ganolfan y Celfyddydau yn Aberystwyth i weld perfformiad o 'An Inspector Calls', sef un o'r dramaù gosod ar gyfer eu cwrs TGAU Llenyddiaeth Saesneg.

Llongyfarchiadau mawr i Sasha Tonks o flwyddyn 9, sydd wedi ennill ei Dan 1af (sef gwregys du) mewn Karate yn y KUGB Grading yn Holywell ddydd Sul, Ebrill 26ain. Da iawn ti!

Clwb Bonjour: Ar Fawrth 18fed, cynhaliwyd sesiwn am y Course Landaise, sef traddodiad o ardal y Landes yn Ffrainc, dan arweiniad athrawes yn yr Adran, Miss Lisa Hughes. Daeth criw bywiog a brwdfrydig ynghyd. Enillydd y gystadleuaeth oedd Rafiq Ali o 7 Steffan. Llongyfarchiadau i



Disgyblion 8P a wnaeth gyfrannu cacennau i'r stondin gacennau Diwrnod Awtistiaeth yr ysgol.



Mrs Gillian Hearne a buddugwyr y gystadleuaeth gyfansoddi.

ti, Rafiq! Yna, cynhaliwyd sesiwn arall ar yr 21ain o Ebrill. Y dasg i'r criw niferus ddaeth ynghyd oedd cynllunio Tŵr Eiffel newydd! Bu'n rhaid i Dr. Delyth Jones, Pennaeth yr Adran Ffrangeg, grafu pen er mwyn dewis dau enillydd o blith y cynigion gwreiddiol, lliwgar a gynigiwyd. Penderfynwyd mai Aisvarya Sridar, Mererid Thomas, Rosie Nasr-Butler a Rafiq Ali (unwaith eto!) oedd yr enillwyr. Diolch i Miss Lisa Hughes am drefnu'r gweithgareddau difyr.

Cododd yr Uned Sgiliau Bywyd £1100 trwy gynnal ystod o weithgareddau yn ystod y Diwrnod Awtistiaeth ar 27 o Fawrth. Diolch i bawb a wnaeth gefnogi yn yr ysgol Iau, yr ysgol Hŷn a Chanolfan y Bont a diolch hefyd i ddisgyblion 8P a wnaeth gyfrannu cacennau i'r stondin gacennau.

Sicrhewch eich newyddion yn y papur hwn. Peidiwch â disgwyl i rywun arall ei gynnwys ar eich rhan. Mae'n rhy hwyr i achwyn ar ôl i CLONC ymddangos.

Taith Cyprus - Gyda'n gilydd fe grëwn Ewrop werdd

Adroddiad gan Elan Jones a Beca Jenkins o flwyddyn 7:

Yn ddiweddar, cafodd unarddeg disgybl o bywllgorau'r ysgol eu dewis i fynd ar daith i Ynys Cyprus gyda phrosiect Eco'r ysgol – Gyda'n gilydd fe grëwn Ewrop werdd. Y disgyblion a ddewiswyd oedd Elan Jones, Beca Jenkins, Owain Jacob (Bl 7) Bea Casiday, Isobel Evans, Lucy Hill (Bl 8) Gethin Morgans, Aled John (Bl 9) Hari Butten, Ffion Evans a Brialllt Williams (Bl 10) yn ogystal â'r athrawon sef Miss Geinor Jones, Miss Hedydd Jones a Miss Nerys Douch.

Mae'r prosiect yn cael ei ariannu gan grant Erasmus+ er mwyn hybu gweithgareddau rhyngwladol. Mae gan yr ysgol ysgolion partner yn y Ffindir, Denmarc a Cyprus, yn ogystal ag Ysgol Bro Myrddin yng Nghymru. Roedden ni'n edrych ymlaen i gwrdd â disgyblion o'r gwledydd yma i gyd ar yr ymweliad â Cyprus.

I ddechrau ein taith, roedd rhaid i bawb gwrdd yn yr ysgol am ddeg o'r gloch (yh) nos Sul. Roedd pawb yn llawn cyffro wrth feddwl am y daith ar y awyren ond hefyd yn flinedig ac yn barod am gwsg. Roedd ambell i ddisgybl erioed wedi hedfan o'r blaen – felly roedd yn brofiad newydd iddyn nhw!



Fe wnaeth yr awyren adael yn brydlon am 7:20 heb unrhyw ffws na ffwdan. Roedd rhai disgyblion yn llawn egni ond y rhan fwyaf ohonom yn flinedig ac yn barod am gwsg!

O'r diwedd! Roedden ni wedi cyrraedd y gwesty yn Limassol yn ddiogel a chawsom groeso braf gan ein harweinydd am yr wythnos sef Yiota Christodoulidou. Y noswaith honno, gwnaethom gyflwyniad fel ysgol i'r gwledydd eraill yn sôn am y Bolisiau Eco a defnydd o egni adnewyddadwy yng Nghymru. Ac ar ôl hynny, gwnaethom gymryd rhan mewn gweithgareddau gyda'r gwledydd eraill er mwyn dod i adnabod ein gilydd.

Ar ddydd Mawrth roedd rhaid i ni godi'n gynnar iawn yn barod i fynd i'r ysgol oedd yn dechrau am 7:30 yn y bore. Gwnaeth Beca Jenkins ei chyflwyniad am egni gwynt ac hefyd gwnaethom ddysgu am draddodiadau crefyddol gan ddisgyblion yr ysgol. Ar ôl hynny, aethom i neuadd yr ysgol i weld gwledd o ddawnsio Groegaidd yn ogystal â chanu traddodiadol. Cafodd bawb hwyl yn gwylio! Ar ôl gwledd o ddiddanu, aethom i 'Ffatri ELCORA' a oedd yn creu tanciau twymo dŵr sy'n twymo dŵr drwy ddefnyddio egni solar. Roedd yn ddiddorol iawn clywed am ffeithiau yn ogystal â gweld y gweithwyr wrth eu gwaith yng nghefn y Ffatri. Ar Nos Fawrth aethom ni i gael pryd o fwyd o'r enw 'Meze'. Bwyd traddodiadol oedd hwn ac roedd yn neis i arbrofi ar yr amrywiaeth o fwyd gwahanol.

Ddydd Mercher yr 25ain roedd hi'n wyl y banc, felly doedd dim ysgol. Yn y bore, cawsom amser rhydd i siopa a mynd am dro ar y traeth. Yna yn y prynhawn fe wnaethom i Ganolfan Wybodaeth Ardal fynyddig Larnaka er mwyn dysgu am yr amrywiaeth o fywyd gwyllt yn yr ardal. Ar ôl gwylio ffilm a chael cip olwg ar y arddangosfeydd fe wnaethom ni fynd mewn bws i weld parc Photovoltaic sydd yn Kato Drys, Larnaka. Paneli solar roedd i'w gweld yma. Roedd hi'n oer iawn ar y mynydd wrth ystyried pa mor braf oedd hi yn Limassol. Dysgon lawer o ffeithiau diddorol am y paneli solar a dysgom bod tua 400 o baneli solar yn y parc. Wedyn aethom i'r amgueddfa gwnïo yn Kato Drys. Roedd hi'n ddiddorol iawn cael gwybod sut roedd dillad yn cael eu cynhyrchu yn yr hen ddyddiau. Hefyd cawsom wybod bod menywod y pentref yn gwnïo ar y strydoedd, a chawsom wybod taw dyma oedd eu ffordd nhw o gymdeithasu a gwneud arian. Ar ôl ein taith o amgylch yr amgueddfa, fe wnaethon ni dechrau ar ein ffordd i'r dref. Cawsom sioc enfawr wrth weld bod un o'r siopau oedd yn Lefkara gyda enw Cymru a Chaerdydd ar arwydd y siop. Cawsom wybod bod perchennog y siop yn dod i ardaloedd sydd yn agos iawn i Lamberd e.e Castell Newydd Emlyn er mwyn gwerthu ei gynnyrch. Erbyn hyn roedd hi'n dywyll felly ni welsom y menywod wrth eu gwaith. Ond tu fewn i'r siop fe welsom gwaith graenus y menywod. Roedd hi'n anghredadwy beth roedden nhw yn gallu gwneud.

Esboniodd dyn y siop bod hi'n cymryd tua deuddeg mis i gyflawni un tasg fel tywell! Yn dilyn hyn cawsom bryd o fwyd yn caffi lleol.

Ar Ddydd Iau y 26ain aethom i goleg technegol Cyprus. Fe wnaethom rannu mewn i grŵpiau gyda'r disgyblion o wledydd eraill. Fe aeth pedwar grŵp draw i un ystafell gyfrifiaduron tra aeth gweddill i dosbarth gwahanol. Roedd angen paratoi cyflwyniad ar beth roeddem wedi gweld ar ein taith. Cafodd pob ddisgybl o Gymru, Denmarc a Ffindir eu partnerio gydag un disgybl o Cyprus. Cyflwynwyd y cyflwyniadau o fewn y coleg technegol ac roedd pob un o'r cyflwyniadau o safon uchel gyda llawer o wybodaeth. Aeth pawb wedyn ar y bws yn ôl i neuadd yr ysgol. Cawsom barti ffarwel a chafodd pawb gyfle i wneud tipyn o ddawnsio traddodiadol Groegaidd! Cafon ni llawer o hwyl wrth ddawnsio. Yna fe wnaethom rhoi ein diolchiadau i'r athrawon ac i'r disgyblion buodd mor garedig tuag atom. Yn ogystal fe wnaeth disgyblion Cymru ganu ein hanthem 'Mae Hen Wlad Fy Nhadau' o flaen pawb! Roedd disgyblion Cyprus wedi paratoi bwyd blasus iawn. Roedd pawb yn drist iawn gan taw hwn oedd ein noson olaf ni yn Cyprus.



Cyrhaeddodd fore Dydd Gwener yr 27ain yn gyflym iawn. Cyn ymadael a'r gwesty fe cafodd pawb dystysgrifau i ddangos eu bod wedi mynychu'r ymweliad yma. Eto, roedd pawb yn drist iawn gan wybod ein bod ni'n mynd adre ac yn gadael ffrindiau newydd. Fe wnaeth pawb ffarfelio ac yna fe wnaethom ni dechrau ar ein ffordd i'r maes awyr. Ar ôl rhyw awr o deithio fe wnaethom ni gyrraedd y maes awyr. Ar ôl glanio yn maes awyr Gatwick, fe ddechreuon ni ein taith ar y bws yn ôl i Lamberd. Roedd pawb wedi blino'n lan, ac yn falch iawn o weld ein rheini yn ein disgwyl tu allan i'r ysgol. Roedd yn brofiad bythgofiadwy.

Adloniant gan Rhian Dafydd

Theatr
FELINFACH

Cynhaliwyd perfformiadau Cwmni Dawns Iau a Chwmni Dawns Ieuenctid Ceredigion ar Nos Iau, 2 Ebrill yn Theatr Felinfach. Cafwyd cynulleidfâ deilwng ac roedd y cyfuniad o'r coreograffi, y goleuo, y gerddoriaeth a'r llwyfannu yn gyfanwaith penigamp.

Ar yr un noson roedd Dwynwen Lloyd Llywelyn, Pennaeth y Theatr yn cyfarwyddo sioe ddathlu pen-blwydd deiamwnt CFfi Mydroilyn yn Neuadd Ysgol Uwchradd Aberaeron. Bu pawb yn ymarfer yn ddwys am wythnosau ac yn ôl yr adborth roedd hi'n sioe a hanner - yn cynnwys aelodau hen a phresennol y clwb. Dyma esiampl arall o waith gwyh Theatr Felinfach yn y gymuned yn cydweithio a mentora'r holl dalent sydd o fewn y sir.

Erbyn hyn mae DRAMATIC! wedi cychwyn, sef Clwb Drama ar gyfer plant oedran 7-11 oed. Penllanw'r prosiect yma fydd perfformiad Y LLEW-FAN ym mis Gorffennaf yn Theatr Felinfach.

Does dim perfformiadau pellach wedi bod yn y Theatr yn ystod mis Ebrill gan fod y gwaith adnewyddu wedi bod yn mynd rhagddo yn yr awditoriwm. Heblaw am got o baent, mae'r gwaith erbyn hyn wedi'i gwblhau ac mae'n rhaid dweud ei fod yn edrych yn gampus. Rydym hefyd wedi bod fel staff yn sicrhau bod y prosiect wedi llwyddo i greu tipyn mwy o ofod i'r coesau, yn eistedd mewn seddi amrywiol o fewn yr awditoriwm ac ymestyn y coesau a rhaid dweud ein bod yn hynod hapus â'r gwaith gorffenedig. Edrychwn ymlaen nawr at y ddau gyngerdd mawr yng nghwmni Tri Tenor Cymru ar Nos Wener, 8fed a Nos Sadwrn 9fed Mai.

Mae'r Clwb Gwnïo yn llwyddiant mawr ac erbyn hyn wedi ail-gychwyn yn dilyn gwyliau'r Pasg. Mae dros 20 yn y clwb ac maent yn griw gweithgar, siaradus a llawn sbri. Byddwn yn edrych ymlaen at weld ffrwyth y llafur mewn arddangosfa o'r gwaith sydd wedi ei greu yn ystod y gwersi rhywbryd yn ystod y flwyddyn gobeithio.

Oes angen cyngor arnoch?

Mae gennym arbenigedd cyfreithiol mewn sawl maes, megis:-

1. CYFRAITH TIR,
2. EWYLLYSIAU A'U PROFIANT,
3. TRETH ETIFEDDIAETH A MODD I'W LEIHU,
4. GWAITH LLYS O BOB MATH.

Os hoffech fwy o wybodaeth mae croeso i chi gysylltu â ni.

ADVE

ARNOLD DAVIES VINCENT EVANS
CYFREITHWYR

33 Stryd Fawr, Llambled
☎ 01570 422517 ☎ 01570 423244



Gwyn Lewis Cyf

Cyflenwi a gosod:
Carpedi a Feinyl, Lloriau Diogel,
Cladinau Wal,
yn ogystal â Gwelyau,
Pennau Gwelyau a Rygiau.

43 Stryd y Bont
LLANBEDR PONT STEFFAN
Ffôn a Ffacs: 01570 423984
Adref: 01570 423349



Gall y driniaeth yma eich helpu, os ydych yn dioddef o'r canlynol:

- * Blinder / diffyg egni
- * Meigryn
- * Irritable Bowel Syndrome
- * Menstrual problems
- * a mwy

Os am ragor o wybodaeth
cysylltwch â Carol Rees
01545 590164
07929 559561

Tim Jones



Ffotograffydd

Llainwen, Rhodfa Glynhebog
Llanbedr Pont Steffan
☎ 01570 422644

The Wash Tub

Heol y Gogledd
(gyferbyn â'r gofologofn)
01570 423647

Gwasanaeth o safon uchel:
smwddio, golchi, sychu
a glanhau.
Ac yn golchi duvets.



Cwmsychpant

Cydymdeimlo

Estynnwn ein cydymdeimlad â Dai a Wendy Davies, Caerwenog a'r teulu yn yn eu profedigaeth yn dilyn marwolaeth mam a mam-gu annwyl, Eileen Davies gynt o Prengwyn, yn ysbyty Glangwili yn ystod y mis. Derbyniwch ein cydymdeimlad dwysaf.

Llwyddiant

Daeth llwyddiant i ran Owain Jones, Blaenhirbant Uchaf pan ddaeth yn 2il yng nghystadleuaeth CAD/CAM i fl 7-9 yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yng Nghaerffili. Bydd ei eitem i'w weld yn yr arddangosfa ar y Maes yn ystod yr Eisteddfod. Da iawn ti Owain.

Capel y Cwm

Bedydd a derbyn aelodau newydd Yn ystod mis Ebrill cafwyd bedydd yng Nghapel y Cwm. Yn ystod yr oedfa dan ofal y Parch Wyn Thomas, bedyddiwyd Lois Alaw ac Elis Wyn, efeilliaid Eilir a Catrin Williams, Penrhiwllan. Hyfryd oedd gweld cymaint yn bresennol.

Hefyd yn ystod yr un oedfa derbyniwyd 5 aelod newydd i Gapel y Cwm sef Paul, Eilir, Bryn a Meleri Williams, Fferm Clyncoch a Meurig Evans, Ty Clyd, Drefach. Croeso cynnes i aelwyd Capel y Cwm a gobeithio y byddwch yn hapus yn ein plith.

Yn gwasanaethu wrth yr organ oedd Mrs Nanna Ryder, Tyngrug ganol, a gweinyddwyd y Cymun hefyd gan y gweinidog.

Yng nghymanfa flynyddol yr Undodiaid yng Nghapel y Graig, Llandysul bu Lois Jones, Blaenhirbant Uchaf yn cyflwyno emyn ar ran Capel y Cwm – fe wnaeth e gyda graen, fel arfer. Gan fod nifer y plant a'r ieuenctid yn mynd yn llai, cyflwynodd Beca Jenkins, Hafan y Cwm hefyd emyn. Diolch i chi ferched am fod mor drwm i ysgol Sul y Cwm.

Pen-blwydd arbennig

Yn ystod y mis dathlodd aelod hynaf y capel sef Mr David Richards, Elmo, Cwrtnewydd ei ben-blwydd yn 95oed. Hyfryd yw ei weld yn mynd o gwmpas yn y car gyda Jean ei ferch, ac y mae yn mwynhau gweld pobl o hyd.

Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau i Euros a Janet Davies, Llys y Wawr ar ddod yn ddad-cu a mam-gu am y tro cyntaf, merch i Carys a Jason yn Llannon - Alaw Grug,

Ar wellhad

Hyfryd yw deall bod Lewis Davies, Cilmeri yn gwella ar ôl derbyn llawdriniaeth yn ddiweddar.

Mis y PaPur Newydd

Colofn Dylan Iorwerth

O diolch iti gwew!

Wel mi ddaeth hi yn y diwedd, a finau wedi bod yn poeni. Roedd yna ryw beth yn fy nŵr yn dweud na fyddai hi'n dod. Ac ro'n i'n teimlo'n anniddig reit.

Dim ond cwcw oedd hi. Ond mi ddaeth. Ar noson dawel, heb fawr o wynt, a'r haul am ychydig oriau yn cynnig rhywfaint o wres, mi glywais i'r ddau nodyn.

Fel arfer, roedd hi wedi dod i'r tir uchel yna uwch Llanybydder ac mi glywais hi wedyn hefyd, wrth oedi ynghanol mynyddoedd Eryri yn Nant Gwynant, a'r Grib Goch yn codi'n fygythiol uwch fy mhen.

Mae'r gog yn prinhaus'n ddychrynlyd. Ychydig o bobol yr ydw i'n eu nabod sy'n ei chlywed hi bellach ac mae gan y gwyddonwyr ffigurau ac ystadegau i gadarnhau'r pwynt.

Mae ganddyn nhw ryw fath o esboniad hefyd. Newid mewn patrymau trin tir wedi dinistrio cynefinoedd – nid dim ond i'r gog ond i'r adar bach y bydd hi'n dodwy yn eu nythod nhw.

Dw i'n amau dim fod llai o gogau ar fryniau Llanybydder hefyd. Tydw i ddim yn nabod yr adar yn bersonol – cydnabod yden ni nid ffrindiau – ond mi faswn i'n taeru mai dim ond un sy'n canu eleni, lle'r oedd dwy neu dair.

Dwy neu dair, medda fi, ond dim ond y ceiliog sy'n canu. Gobeithio felly fod deunod un yn arwydd fod pâr wedi cyrraedd.

Mae'n rhyfedd fel y mae digwyddiadau fel yma'n dal i'n cyffroi ni. Er fod y tymhorau'n mynd yn un o ran bwyd ac arferion a hyd yn oed, i raddau, o ran tywydd, mae troad y rhod yn dal i fod yn bwysig. Y cam ceiliog tua'r Flwyddyn Newydd, yr eirlysiau cynta' a'r blagur yn dechrau cymylu brigau'r coed.

Mae'n drawiadol hefyd fel y mae ambell i flwyddyn yn doreithiog o ran un blodyn neu'r llall. Clychau'r glas oedd hi llynedd, yn ymddangos ar ffriddoedd newydd, a'r lliw yn un na chewch chi mohono fo ar baled artist yn unman.

Eleni, mae'r briallu'n rhyfeddol. Nid rhyw fotymau swil o bethau'n swatio yng nghysgod llwyn, ond clystyrau llwythog ohonyn nhw yn rhaeadru hyd y cloddiau.

Ond dyw'r briallu hyd yn oed ddim patsh ar bwys yr eithin. Mae yna gaeau yn Llanllwni sy'n werth eu gweld ... nid oherwydd glesni'r borfa, na harddwch y coed, ond oherwydd aur yr eithin. Cloddiau cyfan ohono'n wrychoedd am gaeau a'r blodau mor drwchus nes edrych fel waliau aur.

Edrych ymlaen at friallu mair yr ydw i rŵan. Dw i ar fin dechrau pacio'r ces i'w chychwyn hi am Sir Benfro a phenwythnos sy'n draddodiad bellach ar y glannau yn Druidstone. Yno, mi fydd briallu mair – neu sawdl y fuwch, a defnyddio'r enw llai rhamantus – yn pingo.

A dyna beth arall. O fewn ychydig filltiroedd, mae byd natur yn gallu newid yn llwyr a gwahanol fathau o flodau'n rhoi cymeriad o ardal i ardal. Mi fydd clustog Mair hefyd yn sioe hyd lannau Sir Benfro, lle mae'r flwyddyn yn cerdded yn gynt nag yng ngerwinder Ceredigion.

Ond wnaiff Sir Benfro na'r un sir arall ein curo ni am dresi aur. Roedden nhw ychydig yn hwyrach nag arfer y llynedd ond y werth eu gweld ar ôl dod. Ac, i fi, maen nhw'n wledd arbennig achos does gen i fawr o gof ohonyn nhw yn fy mhleentyndod.

A dweud y gwir, roedd blodau'n llawer prinnach ar ucheldiroedd Eryri ac, wrth gwrs, roedd bois yr hewl yn barotach eu cryman a'u pladur. Dyna un peth da am y torri ar wario cyhoeddus, mae yna lai o dorri ymylon ffyrdd.

Rydan ni hefyd wedi dod i sylweddoli fod yna harddwch yn y gwrychoedd a'r cloddiau ac nad blerwch ydi blodyn neidr neu arllwg gwyllt Alltwalis neu binaclau bysedd y cŵn, neu hyd yn oed felyn dant y llew.

A chasgliad y paldaruo yma? Diolch am fyw yn fa'ma.

Cegin Gwenog, Abernant, Llanwenog

Gwasanaeth arlwygo cyflawn
ar gyfer pob achlysur:

- Bwyd Priodas
- Bwffe
- Te Angladd
- Digwyddiadau Maes

Hefyd yn Ystafell Weinï cysurus
Clwb Rygbi Llambled yn gwneud:

- Cinio Dydd Sul 12.00 – 3.00
- Partion pen-blwydd ayb
- Ciniawau
- Cyfarfodydd
- Bwyd Bedydd
- Te Angladdau

*Bwydlenni unigol i ateb eich
gofynion chi – boed yn fawr neu'n fach*



Lifft
cyfleus
yn ei le i
fynd lan
llofft

Os am ragor o fanylion, cysylltwch â:
Tony a Mair Hatcher 01570 481230 / 07967 559683.

Llangybi a Betws



Bant a'i Phen oedd thema disgyblion blwyddyn 5 a 6 Ysgol y Dderi hanner tymor diwethaf, ac uchafbwynt y thema oedd ail-greu erlyniad Anne Boleyn.



Fel rhan o thema Archfarchnadoedd, bu dosbarth Meithrin Ysgol y Dderi ar ymweliad â'r Co-op. Cawsom groeso bendigedig gyda'r holl staff, ac roedd y plant wrth eu boddau yn dysgu am y siop.

Ysgol Y Dderi

Croeso cynnes i'r plant newydd sydd wedi ymuno â ni yn y dosbarth Meithrin y tymor hwn, sef Seirian, Megan, Serafina, Alice, Noah, Daniel a Delun. Gobeithio y byddwch chi'n hapus iawn yn ein plith.

Yn ystod tymor yma, mi fydd y dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 yn cael y cyfle i fynychu gwersi nofio yn wythnosol yn Llanbed. Mae'n gyfle gwych i'r disgyblion i feithrin eu sgiliau yn gynnar.

Bu disgyblion blwyddyn 3 a 4 yn helpu Mrs AD i greu Gardd y Pasg yn Eglwys Santes Cybi. Cafwyd sawl ymweliad â'r Eglwys, a bu pawb yn yr Eglwys yn mwynhau ffrwyth eu llafur dros y Pasg.

Diolch i Gymdeithas Rhieni a Ffrindiau'r ysgol, am drefnu noson Lluniaeth a Lledrith. Cafwyd gwledd Mecsicanaidd, a dawn y consuriwr Luke Close up i ddiddanu a syfrdanu pawb! Cawsom noson hyfryd yng nghwmni'n gilydd. Codwyd dros £600, a diolch i bawb fu'n noddi'r noson lwyddiannus.

Daeth PC Alun i'r ysgol i ymweld â phob dosbarth yn eu tro, i sôn am wahanol agweddau megis pobl sy'n ein helpu, cadw'n ddiogel, a seibrfwlio. Diolch yn fawr iddo am ei gyflwyniadau diddorol.

Braint i ddisgyblion Cyfnod Allweddol 2 oedd cael gwylio sioe Mimosa gan gwmni Mewn Cymeriad. Mae 150 mlynedd ers i'r llong Mimosa gychwyn ar ei thaith i Batagonia bell. Cafwyd cyflwyniad rhyngweithiol,

cyffrous yn llawn ffeithiau hanesyddol am y Cymry a deithiodd i'r Ariannin i sefydlu'r Wladfa.

Daeth yr awdures Catrin Stevens i'r ysgol i sôn am ei chyfres Hanes Atgas, sy'n cynnwys llyfr Y Tuduriaid Trafferthus. Roedd hi wedi'i syfrdanu gan wybodaeth gyffredinol y plant am hanes Cymru, ac wedi mwynhau'r profiad o ymweld ag Ysgol Y Dderi. Ond yn fwy na hyn, roedd y plant wedi mwynhau cael y cyfle i wrando arni hi fel hanesydd ac awdures, ac roedd y lluo o gwestiynau holodd y plant yn dyst i hyn.

Llongyfarchiadau mawr i'r holl blant sydd wedi dod i'r brig dros Gymru yn yr adran Celf a Chrefft yn Eisteddfod yr Urdd Caerffili a'r Fro. Dyma'r rhestr: Addurno Ffabrig, Blwyddyn 2 ac iau, Ffion Edwards 1af; Pyped unigol Blwyddyn 3 a 4, Jago Gaiger 1af; Pypedau Gwaith Grŵp Blwyddyn 3 a 4, Jorge, Steffan, Ben a Ffion, 1af; Serameg Gwaith Grŵp Blwyddyn 5 a 6, Lily, Dafydd, Gruffydd a Nathan, 3ydd; Creu arteffact Blwyddyn 5 a 6, Grŵp Tomos, 3ydd.

Llongyfarchiadau mawr i ddisgyblion blwyddyn 6 am ddod yn ail dros Gymru yng nghystadleuaeth creu gwefan yn Eisteddfod yr Urdd Caerffili a'r Fro. Aeth y plant ati i greu gwefan sy'n sôn am yr holl waith sy'n deillio o goedlan yr ysgol, gan mai Tyfu a Ffynnu oedd thema'r gystadleuaeth. Gwaith campus!

Bu disgyblion blwyddyn 5 a 6

yn cystadlu mewn twrnament pêl droed yr Urdd ar gaeau Blaendolau, Aberystwyth yn ddiweddar. Enillodd y bechgyn ddwy gêm, colli dwy, a dwy gêm gyfartal. Llwyddodd y merched i gyrraedd y rownd gynderfynol.

Fel rhan o'u thema Troi a Llifo y tymor hwn, bu disgyblion blwyddyn 5 a 6 yn astudio'r Afon Hathren ar Fferm Felindre Isaf. Bu'r disgyblion yn cynnal gwaith maes daearyddol ar yr afon, yn ogystal â chynnal ymchwiliad gwyddonol i weld pa greaduriaid dŵr croyw oedd yn byw yn yr afon. Aethom adref yn dilyn yr Afon Teifi o bont Llanbed i bont Llanfair Clydogau.

Yr wythnos ganlynol, aeth y disgyblion i Landysul Paddlers i ddysgu sut i ddefnyddio caia, canŵ, a rafft! Yn amlwg, roedd pawb yn wlyb sopen, ac yn wên o glust i glust wrth ddysgu sgiliau newydd yn y dŵr.

Hefyd, daeth Rhodri Thomas a Mark Thomas, Swyddogion Amddiffyn yr Amgylchedd, Cyfoeth Naturiol Cymru i siarad â disgyblion blwyddyn 5 a 6 am eu gwaith, ac yn arbennig am sut maent yn edrych ar ôl yr Afon Teifi a holl afonydd Ceredigion. Cafwyd prynhawn diddorol yn eu cwmni

Popio i fyny yw thema'r Cyfnod Sylfaen yn ystod yr hanner tymor yma, felly daeth Theatr Bypedau Cymru i'r ysgol i berfformio Llygoden y Wlad. Cafodd y plant gyfle i ddefnyddio'r pypedau wedi'r sioe, a chyfle i holi cwestiynau di-ri.

Diolch i Gwion Phillips, Swyddog Datblygu Rygbi Ceredigion, sydd wedi bod yn cynnal sesiynau hyfforddi rygbi yn yr ysgol i holl ddisgyblion blwyddyn 5 a 6.

Llongyfarchiadau mawr i'r holl blant a fu'n cystadlu yn Nhrawsgwlad Cylch Llanbed yn ddiweddar, a phob lwc i Sofia Freeman, Christie Boyle, Vicki Bruce, Ami Davies, Llinos Thomas, Dafydd Hughes a Gruffydd Thomas, sydd wedi cael eu dewis i gynrychioli'r cylch yn y rownd nesaf yn Aberystwyth.

Aeth disgyblion Cyfnod Allweddol 2 i Nantgaredig, i fwynhau sioe rhyngweithiol gyda Cherddorfa Nantgaredig. Dysgodd y plant am wahanol adrannau'r gerddorfa, a chawsant y cyfle i chwarae rhai o'r offerynnau. Tywydd oedd thema'r perfformiadau, a chlywyd darnau enwog yn cael eu perfformio. Uchafbwynt y bore oedd gweld Mrs Hayley yn perfformio gyda'i soddgrwth yn y gerddorfa. Roeddem ni'n falch iawn o Mrs Hayley!

Hamdden

Ar brynawn o wanwyn heulog ar Ebrill 9fed aeth yr aelodau a ffrindiau am wibdaith ddirgel wedi'i threfnu gan Sally Davies. Wedi teithio ar draws gwlad go anial ar brydiau cyrhaeddwyd Tŷ Nant



Llongyfarchiadau i Cerys Angharad yn yr Eisteddfodau lleol: Urdd Rhanbarth Ceredigion - 2il Canu blwyddyn 2 ac iau, 2il yn cerdd dant blwyddyn 2 ac iau. Llangadog - 1af canu dan 8 oed, 2il Llefaru. Capel y Groes - 2il Unawd 6-8 oed. Rhydlewis - 1af Cerdd Dant dan 12 oed, 2il Canu 6-8 oed, 2il Adrodd 6-8 oed.

— sefydliad sydd yn arbenigo mewn cyflenwi poteli o ddŵr o wahanol fathau. Yno, cawsom groeso cynnes a chyfle i weld y gwaith yn cael ei wneud yn y lle anferth, a'r cynnyrch yn cael ei ddosbarthu i bedwar ban byd. I ddiweddu'r ymweliad cawsom weld fideo o'r lle a'i hanes, a chael anrheg fechan fel momento i gofio am yr ymweliad. Ymlaen wedyn i Fantasy Farm am de prynhawn blasus iawn a chyfle i weld y fferm.

Enillwyr y raffl oedd Eifion Davies, Ann Bennett, Bessie Lloyd, Alan Jones, Mair Spate, Barry Williams, Caradog Jones, Ann Lewis, Nancy Williams a Gwen Lewis.

Ar Fehefin 5ed cynhelir ein gwibdaith olaf y tymor hwn. Manylion i ddilyn.

Merched y Wawr Y Dderi

Cyfarfu'r aelodau ar Ebrill 15fed yn Ysgol Y Dderi gyda'r llywydd Gwyneth Jones wrth yr awenau, a hi a groesawodd y gŵr gwadd sef y Dr. Sion James. Cafwyd noson ddiddorol ac addysgiadol yn ei gwmni wrth iddo sôn am gadw'n iach, trwy fod yn gymhedrol yn ein bywyd bob dydd a chymryd mantais ar frechiadau a sgans sydd ar gael, a gofyn am gyngor meddygol cynnar.

Diolchwyd yn gynnes iddo am noson gofiadwy gan Mair Spate.

Ail-etholwyd y swyddogion presennol – Gwyneth Jones fel Llywydd, Deborah Jones fel Is-lywydd, Mary Jones fel Trysorydd a Mair Spate fel Ysgrifenyddes. Rhoddwyd y raffl gan Ann Davies ac fe'i henillwyd gan Deborah Jones.

I gloi'r cyfarfod cawsom de a bisgedi wedi eu rhoi gan Margaret Davies-Jones a Glenys Lloyd. Gobeithio bod y meddyg yn edrych y ffordd arall! Bydd y cyfarfod nesaf gobeithio yn yr Hen Efail yn Llanio, brynawn Mercher, Mai 20fed.



Bwrlwm y cystadlu yn Rali CFfI Sir Gâr

Llysgenhaddon Newydd i C.Ff.I Sir Gâr

Llongyfarchiadau gwresog i Helen Davies, C.Ff.I Llanarthne a Dylan Bowen, C.Ff.I Capel Iwan a gafodd eu dewis fel Llysgenhaddon newydd y Sir nos Wener, 3ydd o Ebrill 2015 yn y Ddawns Dewis Llysgenhaddon y Sir a gynhaliwyd yn yr Hydd Gwyn, Llandeilo. Llongyfarchiadau i'w dirprwyon hefyd sef Liz Davies, C.Ff.I Llangadog ac Andrew Howells, C.Ff.I Penybont. Mae'r pedwar eisoes yn aelodau brwd o'r Mudiad a braf fydd eu gweld yn cydweithio ac yn cynrychioli'r Sir am y flwyddyn sydd i'w ddod.

Mae C.Ff.I Sir Gâr yn ddiolchgar iawn i Meryl Davies C.Ff.I Llanllwni, Ben Jones a Mared Williams C.Ff.I Llangadog a Mathew Jones CFfI Dyffryn Tywi am eu gwaith arbennig dros y flwyddyn ddiwethaf fel Llysgenhaddon Sir Gâr 2014-2015. Gweithiodd y pedwar yn ddiwyd trwy gynnal Noson Rasys Ceffylau a Hel Atgofion lle codwyd swm sylweddol o arian ar gyfer ROSPA ac at gyllid y Mudiad yn Sir Gâr. Bu'r pedwar yn brysur hefyd yn ymweld â Chlybiau'r Sir a chynnal nosweithiau o hwyl a sbri i'r aelodau. Diolch am eich gwaith caled.

Diwrnod Gwaith Maes C.Ff.I Sir Gâr

Bu cystadlu brwd trwy gydol diwrnod Gwaith Maes y Sir a gynhaliwyd ym Mart Llanymddyfri ddydd Sadwrn 11eg o Ebrill. Ffion Jones C.Ff.I Llanfynydd enillodd teitl Stocmon Hŷn y flwyddyn gydag Anwen Jones C.Ff.I Llanllwni'n ail, Ffion Rees C.Ff.I Llanfynydd yn drydydd ac Elizabeth Harries C.Ff.I Dyffryn Tywi yn bedwerydd. Blwyddyn i'r merched oedd hi eleni yn y gystadleuaeth yma'n amlwg; bydd y bedair yn mynd ymlaen i'r Trallwng i gynrychioli Sir Gâr ar lefel Cymru.

Wrth i'r merched gipio'r gwobrau yn y gystadleuaeth Stocmon Hŷn, y bois wnaeth yr un peth yn y gystadleuaeth Stocmon Iau gydag William Griffiths C.Ff.I San Clêr yn dod i'r brig yn y gystadleuaeth am y trydydd tro'n olynol!

Yn ei ddilyn oedd Aaron Hughes C.Ff.I Llangadog yn ail, Dafydd Evans C.Ff.I San Ishmael yn drydydd a Tomos Griffiths hefyd o Glwb San Ishmael yn bedwerydd. Pob lwc i'r pedwar yn y Trallwng.

Mae'n amlwg bod anifeiliaid Llanfynydd yn ddiogel yn eu caeau wrth i'w ffoi Clwb Llanfynydd gipio'r wobr gyntaf yn y gystadleuaeth Codi Ffens Adran Hŷn a'r Adran Iau! Pob hwyl i Ioan Jones, Elgan Thomas a Daniel Thomas yn cynrychioli Sir Gâr yn y Trallwng yn yr Adran Hŷn ac i Aron Hemmings, Rhydian Davies a Dylan Thomas yn yr Adran Iau.

Llongyfarchiadau i Siriol Richards a Mark Harries C.Ff.I Llandeilo am ennill y gystadleuaeth Fferm Ffactor yr ail dro'n olynol, pob lwc iddynt hwythau hefyd yn cynrychioli Sir Gâr ar lefel Cymru.

Gareth Williams C.Ff.I Capel Iwan ddaeth i'r brig yn y gystadleuaeth Trin Tractor gydag Aled Jones C.Ff.I Llanllwni'n ail a Meirion George C.Ff.I Llanfynydd yn drydydd.

CFfI Ceredigion

Mae wedi bod yn fis bishi iawn unwaith eto i'r mudiad yng Ngheredigion. Rydym wedi cystadlu o fewn y Sir ac wedi teithio i Lanelwedd a'r Trallwng i gystadlu ar lefel genedlaethol.

Teithiodd llawer o aelodau'r Sir i Lanelwedd ar benwythnos y 21ain o Fawrth i gystadlu yn y Siarad Cyhoeddus. Roedd yr aelodau yn parhau yn y

Gymraeg ac yn eu hail iaith, Saesneg, hefyd!

Daeth llwyddiant i'r tîm Call my Bluff wrth iddynt gyrraedd y safle 1af. Daeth y tîm Adran Ddarllen dan 14 oed, y tîm Adran Iau dan 16 oed, a'r tîm Adran Ganol dan 21 oed i gyd yn 4ydd yn eu hadrannau. Yng nghystadleuaeth y Seiat Holi daeth tîm yr Adran Hŷn dan 26 oed yn 3ydd. Llongyfarchiadau arbennig i Dafydd Morgan o Glwb Pontsian am ennill y Tlws am Berfformiad Unigol Gorau yn yr Adran Hŷn Cymraeg. Ar ddiwedd y clebran Cymraeg daeth y Sir yn 3ydd ar draws y pedwar ystod oedran.

Mae'n amlwg ein bod ni'r Cardis yn dda am dwyllo wrth i'r tîm Call my Bluff Saesneg hefyd ddod i'r brig! Daeth tîm yr Adran Ddarllen dan 14 oed yn 4ydd a'r Adran Iau dan 16 oed yn 3ydd. Daeth llwyddiant i'r timau Adran Ganol dan 21 oed a'r Adran Hŷn dan 26 oed wrth iddynt ennill yn eu hadrannau - gwyh! Llongyfarchiadau hefyd i Enfys Hatcher o Glwb Llanwenog am ennill y Tlws am Berfformiad Unigol Gorau yn yr Adran Hŷn Saesneg. Daeth llwyddiant i Geredigion wrth i ni ennill Tarian Geraint Evans ar gyfer y Ffederasiwn Buddugol yn y Pedair Adran y Siarad Cyhoeddus - da iawn i bawb!

Llongyfarchiadau hefyd i Eiry Williams am ddod yn 2il yn y Gystadleuaeth Ymgeisio am Swydd ar ôl ysgrifennu CV, llythyr eglurhaol a chael ei chyfweld ar y diwrnod!

Llongyfarchiadau i Glwb Llanwenog ar ddod i'r 3ydd safle yng Nghystadleuaeth Arddangosfa Ciwb gyda'r thema 'Carreg Fillitr y Teulu'.

Cynhaliwyd Diwrnod Hwylus Sul y Pasg ar 5ed o Ebrill yn Llanbed. Roedd criw da wedi dod at ei gilydd a chawsom lawer o hwyl.

Cynhaliwyd Gala Nofio'r Sir ym Mhwl Nofio Aberaeron ar Nos Lun y 13eg o Ebrill. Llongyfarchiadau i'r holl aelodau fu'n cystadlu. Daeth Clwb Felinfach i'r brig am y trydydd tro yn olynol - nofiwyr da mae'n amlwg! Llongyfarchiadau arbennig i Mared Davies o Glwb Felinfach am ennill y cwpan am yr amser cyflymaf, da iawn ti!

Dyma lun o Glwb Felinfach yn derbyn y Cwpan oddi wrth Gadeirydd y Sir, Elgan Evans:

Cynhaliwyd Diwrnod Maes C.Ff.I Cymru yn Y Trallwng ar ddydd Sadwrn y 18fed o Ebrill. Bu aelodau'r Sir yn barnu ŵyn, da godro, moch a biff ynghyd â chodi ffens, gyrru ATV a chystadlu yn y gystadleuaeth Fferm Ffactor.

Daeth tîm y Stocmon Hŷn (Dion Davies, Carwyn Jones, Marged Jones a Dyfan Ellis Jones) yn 3ydd ar ddiwedd y cystadlu a'r tîm Stocmon Iau (Dafydd James, Gethin Evans, Laura Evans a Manon Turner) yn 2il.

Llongyfarchiadau i Dilwyn Harries, Gareth Harries a Richard Downes am ennill y gystadleuaeth Codi Ffens a'r tîm Iau (Dyfrig Williams, Brychan Lewis a Rhodri Griffiths) yn dod i'r 4ydd safle. Daeth Ceredigion i'r 6ed safle ar ddiwedd y cystadlu.

I Ddod: Dydd Sadwrn y 9fed o Fai Chwaraeon y Sir, Canolfan Hamdden Llambod; Nos Fercher y 20fed o Fai Pwyllgorau'r Sir; Dydd Sadwrn y 6ed o Fehefin Rali'r Sir, Llanddewi Brefi; Nos Sul y 7fed o Fehefin Gymanfa'r Rali

Canlyniadau Clwb 200 Ebrill: 1af – Gwynne Davies, Godre'r Garth, Llanddewi Brefi, Tregaron; 2il – D&A E Lewis, Rhydybont, Tregaron; 3ydd – Sian Rees, Castell y Geifr, Llanarth.

Cwrtnewydd

Ysgol Cwrtnewydd

Croesawyd pawb yn ôl i'r ysgol yn dilyn gwyliau Pasg, yn barod am dymor olaf disgyblion blwyddyn 6 yn Ysgol Cwrtnewydd. Yn ystod yr wythnos gyntaf cynhaliodd Pwyllgor Mabolgampau Pentref Cwrtnewydd bingo yn neuadd yr ysgol, a braf oedd gweld y neuadd yn gyfforddus lawn. Diolch i'r pwyllgor am ei rodd hael i gronfa'r ysgol.

Mae disgyblion blwyddyn chwech wedi dechrau ar eu diwrnodau pontio yn Ysgol Bro Pedr, lle y byddant yn treulio tridiau yn ymweld ac yn dod yn gyfarwydd â'r ysgol erbyn mis Medi.

Bu plant blwyddyn 3-6 yn cystadlu yn nhrawsgwlad Cylch Llanbed ar y caeau criced. Cafwyd canlyniadau gwych a dyma'r plant a fydd yn cynrychioli Cylch Llanbed yng nghystadleuaeth Trawsglwad yr Urdd ddiwedd y mis: Katy Moyes, Elan Jenkins, Luned Jones, Lisa Jenkins, Lois Jones a Caitlin Gibbons. Pob lwc i chi ferched.

Braf oedd cael y newyddion gwych fod Ela Rees wedi ennill y gystadleuaeth Print Monocrom bl. 2 ac iau yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd. Bydd ei darn yn cael ei arddangos yn yr Eisteddfod Genedlaethol yn y Babel Celf a Chrefft. Dymunwn bob lwc i Nia Morgans gan y bydd hi yn cystadlu

yng nghystadleuaeth y Cogurdd ar faes yr Eisteddfod Genedlaethol ddydd Llun, Mai 25ain. Hefyd bydd y Gân Actol yn perfformio ar brif lwyfan yr Eisteddfod ddydd Mercher, Mai 27ain.

Gwellhad

Gobeithio fod Mrs Catherine Jane Davies, Glenydd yn teimlo'n well yn dilyn ei arhosiad yn ysbyty Glangwili yn ystod y mis.

Noson Bingo

Cynhaliwyd Noson Bingo dan nawdd y Pwyllgor Mabolgampau yn ystod y mis. Hyfryd oedd gweld neuadd yr ysgol yn llawn gydag ystod eang o oedran wedi dod ynghyd i chwarae bingo yng nghwmni Gwyn a Val Jones o Felinfach. Cafwyd raffl fechan ar y noson a rhannwyd yr arian i wahanol fudiadau lleol - megis Cylch Ti a Fi, Y Gymdeithas Hŷn ac Ysgol Cwrtnewydd - gan y cadeirydd, Wendy Davies cyn i bawb droi am adref. Cofiwch felly am y Mabolgampau blyneddol ar gae'r ysgol ar Gorffennaf 11eg - dewch i gefnogi.

Cydymdeimlo

Danfonwn ein cydymdeimlad dwysaf gyda Dannie Harries, Gelli a'r teulu i gyd yn dilyn marwolaeth ei fab yng nghyfraith, Bev Coles o Lamed.



Croesawyd dau aelod o'r R.N.L.I i Ysgol Cwrtnewydd. Cafwyd sesiynau ar sut i gadw'n ddiogel ar ein traethau, ac roedd y plant wedi mwynhanu.



Bingo Noson Mabolgampau pentref Cwrtnewydd

Llanwnnen

18 oed

Yn ystod mis Ebrill a dechrau mis Mai dathlodd dwy o ferched y pentref eu pen-blwyddi yn 18 oed sef Hannah Cooper, Bro Grannell a Kate Jones, Brynheulog. Dymuniadau gorau i chwi i'r dyfodol.

Cydymdeimlad

Danfonwn ein cydymdeimlad llwyrfa at Glenville a Carol Thomas a'r teulu, 1 Sycamore Teras ar golli mam a mam-gu annwyl sef Mrs Brenda Thomas o Lanybydder yn ystod y mis.

Sefydliad y Merched

Ym mis Ebrill cyfarfu'r Sefydliad yng Ngwesty'r Grannell, Llanwnnen gyda Mrs Avril Jones yn llywyddu. Estynnodd groeso cynnes i'n gŵr gwadd, sef Mr Richard Jones, cigydd o Lanwnnen sy'n gweithio yn Dunbia. Dangosodd Richard y ffordd draddodiadol a'r ffordd fodern i dorri oen a chafwyd noson hwyliog ac addysgiadol yn ei gwmni. Diolchwyd iddo gan Mrs Alice Davies a gweinwyd y te gan Mrs Glenys Jones a Mrs Doris Jones. Enillwyd y raffl, a oedd yn rhoddedig gan Mrs Alice Davies, gan Mrs Ann Hughes ac enillwyd y gystadleuaeth fisol am addurn ar ffurf anifail gan Mrs Avril Jones, gyda Mrs Jean Jones yn ail a Mrs Irene Jackson yn drydydd. Ar Mai

8fed bydd trip y gwanwyn.

Genedigaeth

Llongyfarchiadau i Dafydd a Lisa Bowen ar enedigaeth mab bach, sef Rhys Tomos, ŵyr cyntaf Graham a Vivienne Bowen, Delyn Aur, Llanwnnen.

Cynrychioli Cymru

Llongyfarchiadau i Elin Mai Thomas, 1 Sycamore Terrace a gafodd wahoddiad i gystadlu fel rhan o'r pedwarawd lleisiol i gynrychioli Cymru yn yr Ŵyl Ban Geltaidd yn Derry, Iwerddon dros y Pasg, ac ennill y drydedd wobr. Roedd hi'n anrhydedd i gystadlu yn y gân werin gyda Gwenan Gibbard, Catrin Thomas a Dylan Cernyw, a chystadlu yn erbyn cynrychiolwyr o'r Alban, Cernyw, Iwerddon ac Ynys Manaw.

Ysgol Llanwnnen

Croeso cynnes i ddisgybl newydd sef Non Evans. Mae Non bellach yn gartrefol iawn yn ein plith.

Erbyn hyn mae blwyddyn 6 yn dod tua therfyn eu hamser yn yr ysgol ac maent bellach wedi dechrau treulio ambell gyfnod yn Ysgol Bro Pedr yn blasu'r hyn fydd yn eu disgwyl ym mis Medi, gan gynnwys cyfnod yn yr adran Ddylunio a Thechnoleg yn defnyddio'r adnoddau gwych sydd

Da iawn i holl blant yr ysgol fu'n cystadlu yn Eisteddfod Sir a Chenedlaethol Celf a Chrefft yr Urdd, a llongyfarchiadau i'r rhai gafodd cyntaf, ail neu drydydd.



ar gael yno.

Bu nifer o ddisgyblion yr ysgol yn cystadlu yn yr Eisteddfod Gylch a Rhanbarth yn ddiweddar. Da iawn i'r grŵp Dawnsio Disgo am ddod yn ail ac i'r Parti Unsain hefyd a ddaeth yn ail. Cafodd y grwpiau Dawnsio Gwerin a'r Ymgom y wobr gyntaf gan fynd i'r Eisteddfod Sir yn Felinfach ac ym Mhonrhydfendigaid. Diolch yn fawr i Mrs Elonwy Davies am gyfeilio i ni ac i gyn-ddisgybl o'r ysgol, Catrin Rosser, am gynorthwyo gyda'r dawnsio disgo.

Mae nifer o ddisgyblion blynyddoedd 5 a 6 yn paratoi ar gyfer cystadlu yng nghystadleuaeth dawnsio gwerin yn Eisteddfod yr

Urdd Caerffili ar 27ain o Fai. Pob dymuniad da i Steffan H, Meirion, Guto, Steffan G, Catrin, Lilly, Maria, Emily a Lucy.

Pleser oedd gweld plant yr ysgol yn cymryd rhan yn noson Gawl a Chân Llanwnnen yn y Grannell yn ddiweddar. Bu'r disgyblion yn diddanu'r gynulleidfa gyda nifer o eitemau. Diolch i'r Grannell am eu croeso ac am y sosej a sgldion arferol i'r plant.

Bu'r Gymdeithas Rien i ac Athrawon a'r plant ar daith gerdded ar brynawn Gwener 17eg o Ebrill. Roedd hi'n brynawn braf a chafwyd amser hyfryd yn cerdded tua 3 milltir. Diolch i bawb sydd wedi noddi rhywun i gerdded.

Yn y Gegin gyda Gareth



Merllys Mis Mai

Gyda mis Mai yma, y tywydd yn cynhesu a'r nosweithiau'n ymestyn, daw cynhwysyn tymhorol cyffrous i'r gegin, sef merllys (asparagus).

Gwnewch y gorau ohono yn y cyfnod byr mae ar gael yma ym Mhrydain. Yn ôl y sôn, mae'n cael ei dyfu a'i gynaeafu ym Mro Gŵyr.

Wrth ei brynu, dewiswch rai cadarn, main, a lliw gwyrdd llachar sy'n dynodi ffresni. I'w baratoi, golchwch gan ei ddal ym mhob pen a'i blygu, sy'n creu toriad naturiol, gan adael y pen bwytdwy ar ôl.

Felly manteisiwch ar ferllys mis Mai, a mwynhewch.

Gareth

Milwyr merllys ac wy wedi berwi

Cynhwysion

- 1 llwy fwrdd olew'r olewydd
- 50gm briwsion bara
- Pinsied o paprika
- 16-20 coesau merllys, 4 wy



Dull

1. Cynheswch yr olew mewn padell, a ffrwch y briwsion bara nes eu bod yn euraidd, a blaswch â'r sbeis a halen.
2. Berwch y merllys mewn dŵr a halen am 3-4 munud.
3. Berwch yr wyau am 3-4 munud.
4. Gweinwch yr wyau gyda'r milwyr merllys, a sgeintiawch â'r briwsion.

Bara Merllys a Tomato

Cynhwysion

- 100 ml olew'r olewydd
- 250 gm merllys, wedi'u torri
- 200 gm blawd codi
- 1 llwy fwrdd teim
- 3 wy wedi'u curo, 100 ml llaeth
- Ychydig olewon du
- 100 gm tomatos bach coch.
- 100 gm o gaws Cheddar wedi gratio.



Dull

1. Trowch y ffwrn i 190 fan, 170 C, Nwy 5
2. Irwch dun torth, a berwch y merllys am tua 2 funud.
3. Cymysgwch y blawd, teim, halen a phupur. Gwnewch wagle yn y canol, ac ychwanegwch yr wyau, llaeth a'r olew. Cymysgwch yn dda, yna i mewn â'r merllys, olewon du a'r tomatos wedi'u torri'n fân.
4. Rhewch y cyfan yn y tun, a sgeintiawch y caws drosodd.
5. Pobwch am 30-40 munud nes ei fod yn euraidd.

Pasta Merllys a Pancetta

Cynhwysion

- 400 gm penne pasta,
- 500 gm merllys
- 2 llwy fwrdd olew
- 6 tafell [ancetta wedi eu torri'n giwbiau.
- 200 gm tomatos ceirios, Ychydig basil



Dull

1. Trowch y ffwrn i 200 C a choginiwch y tomatos, merllys, olew a'r pancetta yn y ffwrn am tua 10 munud.
2. Berwch y pasta, yna hidlwch y dŵr i ffwrdd.
3. Cymysgwch y pasta a'r llysiau o'r ffwrn, gan ychwanegu'r basil - a gweinwch.

O'r Cyngorau Bro



CYNGOR BRO LLANLLWNI.

Cynhaliwyd y Cyfarfod yn Neuadd Gymunedol Llanllwni, nos Lun 9 Mawrth 2015 am 8.00yh. Cadeirydd: Dewi Davies, Clerc: Eirlys Owen, Gohebydd y wasg: Dewi Davies.

Croesawodd y Cadeirydd yr aelodau i'r cyfarfod a dymunwyd gwellhad buan i Eurig Davies.

Cadarnhawyd bod y maes chwarae a'r adnoddau wedi'u harchwilio yn fanwl yn ystod yr wythnosau diwethaf gan Tom Jones ac Eric Davies. Yr oedd arwyddion newydd wedi'u gosod yn gwahardd cŵn o'r cae chwarae.

Yr oedd y Clerc wedi derbyn cwyn am yr arwyddion yn gwahardd cŵn. Yn unol â chynghor a ddarparwyd gan Gyngor Sir Gâr ac Un Llais Cymru, mae gan y Cyngorwyr hawl cyfreithlon i wahardd cŵn rhag mynd ar y cae chwarae. Mae'r Cae Chwarae yn adnodd i blant ac nid ar gyfer ymarfer cŵn. At hyn, nid oes cŵn i fod ar y cae chwarae yn unol â rheoliadau Iechyd a Diogelwch.

Penderfynwyd cynnal mabolgampau ar y cae eleni i nodi agoriad swyddogol y cae a'r gwelliannau. Byddai'r Cyngor Bro yn trefnu'r gwobrau ar y dydd ac yn cysylltu â'r rhanddeiliaid priodol fel gwerthfawrogiad o'u cyfraniad.

Penderfynwyd danfon llythyr i ofyn i'r Rhieni beidio â pharcio tu allan i'r Ysgol oni bai bod hynny'n angenrheidiol er mwyn sicrhau diogelwch.

Bryndulais - Yr oedd ceir wedi eu gadael ar y stryd. Byddai'r cyngor yn cysylltu â'r Cyngor Sir.

Cyllid - Cyflwynwyd y fantolen ddiweddaraf i'r Cyngorwyr.

Diolchodd y Cadeirydd i bawb am eu presenoldeb a'u brwdfrydedd dros y plwyf. Bydd y cyfarfod nesaf yn Neuadd Gymunedol Llanllwni ar 11 Mai 2015 am 8yh.



Cegin Gareth
Goedwig
Llanbedr P.S.
SA48 7JP
01570 422 313

Blodau
Cacennau
Dathliadau
Partion



MIMOSA gan Tim Baker

Y siwrne enfawr am wladychwyr Cymreig a greodd Gymru y tu hwnt i Gymru

150 o flynyddoedd yn ôl, ar yr 28ain Mai 1865, hwyliodd y llong Mimosa o Lerpwl i Batagonia. Ar ei bwrdd roedd teuluoedd o Gymru'n llawn gobaith am fywyd gwell ym Mhatagonia bell. Roedd un weledigaeth - sefydlu cymuned Gymreig 7,000 o filltiroedd i ffwrdd. Ond breuddwyd wag oedd y paradwys ddisgwyliedig. Er hynny, wedi blynyddoedd o galedi ac yn wyneb pob rhwystr, llwyddo fu eu hanes ac mae cymuned Gymraeg ei hiaith ym Mhatagonia hyd heddiw. Dathlir eu cyflawniad rhyfeddol yn y sioe gerdd broffesiynol hon - sioe gyffrous a phwerus, MIMOSA.

"codwyd yr angor i ffarwelio â gwlad ein genedigaeth,"

Thomas Jones, Glan Camwy 1865

Theatr Mwldan, Aberteifi
Dydd Mercher, 10 Mehefin am 1:00yp

Tocynnau: £8 a gostyngiadau £6
01239 621200

Yn ystod mis Gorffennaf, bydd cwmni o berfformwyr ifanc o Gymru a Phatagonia'n ymuno â'n tîm proffesiynol ac yn perfformio yng Nghymru ac yn teithio i Batagonia i berfformio Mimosa.

Bydd perfformiadau Saesneg o'r sioe ar gael hefyd yn ystod cyfnod y daith

ctctyp.co.uk || @youngclwydifanc || #Mimosa



Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales



Llywodraeth Cymru
Welsh Government



Supporter of
The National Lottery
Cafodd y cerbydau
Y Loteri Genedlaethol
Awy Gwybodaeth Cymru

LYN JONES

"At eich gwasanaeth"



- Torri porfa - o lawntiau bach i gaeau chwarae
- Symud celfi
- Unrhyw waith o gwmpas y tŷ a'r ardd
- Trwydded i gario gwastraff
- Wedi yswirio'n llawn

01570 481029

Lakefield, Llanybydder, SA40 9RL

Bingo

Hoffai Pwyllgor Cylch Meithrin a Tia Fi Llanllwni ddiolch yn fawr i bawb am eu cefnogaeth i sicrhau llwyddiant y noson Bingo Pasg a gynhaliwyd yn Nhafarn y Talardd ar 13 Ebrill 2015. Braf yw cofnodi y gwnaed elw o £524, ac yn ychwanegol, rydym wedi derbyn £500 gan Fanc Lloyds drwy law Christine Thomas o dan cynllun £ am £.

Croeso cynnes i Shanti Gwenol Shanang sydd wedi ymuno â'r Meithrin y tymor yma. Gobeithio byddi di yn mwynhau dy amser yn y Cylch. Ein thema y tymor hwn yw'r Tywydd a Thymhorau ac yn ystod y tymor bydd y plant yn mynd i'r parc ar gyfer teddy bears picnic!

Cynhelir Cyfarfod Cyffredinol Blynnyddol Cylch Meithrin a Ti a Fi Llanllwni nos Lun 18ed o Fai 2015 am 8 yr hwyr yn yr ysgol. Croeso cynnes i rieni hen a newydd i'r cyfarfod er mwyn sicrhau llwyddiant y Cylch am y flwyddyn sydd i ddod.

Cylch Ti a Fi

Cynhelir Cylch Ti a Fi bob bore Gwener o 9:30yb hyd 11:30yb yn Ysgol Llanllwni. Croeso i rieni, gofawyr, mam-gus a tad-cus i ddod gyda'u plant i gymryd rhan mewn gwahanol weithgareddau, a chyfle i'r oedolion gael sgwrs dros banded.

C.Ff.I. Llanllwni

Wel bois bach ma' mis arall wedi pasu 'to! Ac yn ôl ein harfer, dy'n ni ddim wedi bod yn segur!

Ar y 10fed o Ebrill, cynhaliwyd ein noson Tip-it yn nhafarn Talardd. Yr enillwyr noson oedd Catrin, Meryl a Ffion, gyda thair o famau'r clwb yn yr ail safle - Marian Jones, Rhian Jones a Shan Phillips. Llongyfarchiadau i chi gyd a diolch i bawb a ddaeth i'n cefnogi.

Bore cynnar oedd hi drannoeth i sawl aelod, gan bod diwrnod gwaith maes y Sir yn cael ei gynnal ym mart Llanymddyfri. Bu Sara, Luned, Cathrin, Sioned Bowen, Sioned Howells, Siriol, Nerys, Gwennan a Harriet yn fisi am sawl awr yn peintio arwydd i hyrwyddo'r Rali. Mae ffrwyth eu llafur i weld yng nghanol y pentre wrth i chi yrru am Gaerfyrddin, tu allan i siop T L Thomas. Gan fod y beirniad wedi methu dod ar y dydd, cawn wybod eu safle yn rhifyn mis nesa! Daeth Anwen yn ail fel stocmon hŷn y sir, ac yn nhŷ y sir ar lefel Cymru. Daeth Carwyn, Ben ac Arwel yn ail yng nghystadleuaeth ffensio hŷn. Daeth Aled hefyd yn ail yng nghystadleuaeth gyrru tractor. Llongyfarchiadau i chi gyd.

Wythnos yn ddiweddarach cynhaliwyd diwrnod gwaith maes Cymru yn y Trallwng. Daeth Anwen eto i'r ail safle yng nghystadleuaeth Stocmon Hŷn Cymru. Da iawn ti. Bu Carwyn, Ben, Arwel a Ffion

yn cynrychioli'r Sir yno yng nghystadleuaeth Effeithlonrwydd a Diogelwch, a ddaethant yn bedwerydd.

Ymarferion y rali sy'n cymryd amser yr aelodau ar hyn o bryd - erbyn y byddwch chi'n cael cyfle i ddarllen hwn, bydd y rali wedi bod; cewch adroddiad llawn yn rhifyn Mehefin.

Nos Wener yr 8fed o Fai bydd noson Helfa Drysor y clwb. Byddwn yn dechrau eleni o faes parcio capel Gwyddgrug, a'r car cyntaf yn dechrau am 6yh. Llanwch y tanc petrol a dewch am dro hamddenol o amgylch yr ardal! Welwn chi 'na!

Ŵyr bach

Llongyfarchiadau i Eleri a Dewi Thomas, Blaencwmdu ar cael ŵyr bach newydd, Cai, ar ddiwedd mis Mawrth, mab bach i Geraint a Nia yn Aberaeron. Dymuniadau gorau i chwi fel teulu.

Capel Nonni

Cynhelir Cymaifa Ganu Pencader a'r Cylch yng Nghapel Nonni, Llanllwni ddydd Sul, Mai 17eg am 2.00y.p. a 5.00y.p. Arweinydd gwadd fydd Mr Martin Griffiths, Llandysul.

Cyfeilyddion y prynhawn: Y Diarhebion. Artistiaid gwadd Oedfa'r hwyr: Côr y Drindod. Arweinydd: Mr Eilir Owen Griffiths.

Penwythnos Hwyl

Mae Ysgol, C.Ff.I a Meithrin Llanllwni yn cynnal Penwythnos Hwyl ar gae chwarae'r pentref: 10fed Gorffennaf - Twrnament Pêl-droed 5 bob ochr; 11eg o Orffennaf - Diwrnod Hwyl; 12fed o Orffennaf - Helfa Drysor.

Bydd mwy o fanylion yn y rhifyn nesaf. Os oes unrhyw ymholiad, cysylltwch â Caryl 07980 452309.

Gwellhad Buan

Gwellhad buan i Eurig Thomas, Llety Euros yn dilyn arhosiad yn yr ysbyty yn ddiweddar, ac hefyd i David Evans Murmur y Coed sydd yn yr ysbyty.

18 oed

Llongyfarchiadau i Owain Davies Gwndwn ar ddathlu ei ben-blwydd yn 18 oed.

Ysgol Llanllwni

Diolch i Dave a Tracey y Swyddfa Bost am eu rhodd o £41.50, sef elw'r raffl Nadolig. Diolch yn fawr am eich cefnogaeth gyson i'r ysgol. Cynhaliwyd Noson Goffi lwyddiannus cyn gwyliau'r Pasg yn Neuadd yr Eglwys. Llywyddion y noson oedd Mr a Mrs Dilwyn Gibby o Lanybydder. Diolch yn fawr iddynt am eu rhodd hael. Bu'r plant yn diddanu'r gynulleidfa drwy ganu ac adrodd. Bu'r rhieni yn brysur gyda'r lluniau a diolch i bawb a ddaeth i gefnogi. Gwnaethom elw o



Cynhaliodd Cylch Meithrin Llanllwni Noson Bingo yn Nhafarn Talardd, Llanllwni nos Lun, Ebrill 13eg. Gwnaed elw o £524. Diolch i bawb a wnaeth gefnogi.

Cyflwynodd Christine Thomas o Fanc Lloyds sic o £500 fel cynllun £ am £ iddynt. Yn y llun o'r chwith mae Eirlys Owen (Trysorydd), Ffion Williams (Arweinydd), Christine Thomas (Banc Lloyds), Annwen Evans, (Cadeirydd) a Rhian Bellamy Powell (Ysgrifenyddes).



Catrin, Meryl a Ffion, enillwyr Tip-it CFfI Llanllwni.

£511 tuag at gronfa'r ysgol.

Cyn gwyliau'r Pasg ffarwelwyd â Miss Jodie Guest. Er mai ond am hanner diwrnod yr wythnos am dymor bu'n dysgu CA2 roedd wedi setlo yn ein plith. Pob lwc iddi yn ei swydd dysgu yn Llangennech. Croeso i Miss Elin Griffiths atom i wneud y gwaith.

Bu disgyblion o CA2 yng ngŵyl rygbi'r Urdd yn Aberaeron gan ddod yn ail yn y gystadleuaeth. Buont hefyd yn cymryd rhan yng nghystadleuaeth 7 bob ochr yr Urdd yn Aberystwyth. Da iawn blant.

Daeth cwmni Football First i'r ysgol i wneud gweithgaredd gyda CA2. Roedd cyfle ganddynt ennill gwobrau wrth gasglu noddwyr o flaen llaw. Cawsant lawer o sbri. Cafodd plant y Cyfnod Sylfaen gyfle ar ddiwedd y sesiwn i gicio'r bêl. Daeth PC Eleri Bonning i'r ysgol i wneud cymorth cyntaf gyda blwyddyn 5 a 6.

Dyma enillwyr Clwb Cefnogwyr yr ysgol am fis Ebrill: 1af - 240 - Tom Jones, 32 Bryndulais, Llanllwni. 2ail - 15 - Iona Jones, 10 Bryndulais, Llanllwni. 3ydd - 230 - Ffion Rees, Llys-y-Wawr, Llanllwni.

Llwyddiant yn y Rali

Wrth i Bapur Bro Clonc fynd i'r wasg, daeth y newyddion i law bod CFfI Llanllwni wedi dod yn ail yn Adran Hŷn Rali Sir Gâr. Tipyn o gamp. Llongyfarchiadau gwresog i bawb a fu'n gweithio mor galed.

Gofynnir am
gyfraniad o

£5

yn unig er mwyn rhoi
neges o ddiolch ym
Mhapur Bro Clonc
os gwelwch yn dda.

Rhifyn mis Mehefin

Yn y Siopau
Mehefin 4ydd

Erthyglau, Newyddion
a Lluniau i law erbyn
Mai 25ain

Llanbedr Pont Steffan

Amgueddfa Llambed

Braf yw dweud fod yna griw da o wirfoddolwyr - dros 25 ohonynt erbyn hyn - yn rhoi o'u hamser i fod ar ddyletswydd adeg oriau agor yr amgueddfa, ac yn fawr eu croeso i'r ymwelwyr.

Braf hefyd yw cael ymateb am help ariannol; mae rhestr ffrindiau sydd eisoes wedi noddi'r amgueddfa i'w gweld ar wefan Hanes Llambed, ond hoffai'r pwyllgor gweinyddol gydnabod yn ddiolchgar rodd ariannol o £210 oddi wrth y Cambrian News tuag at gostau offer gweinyddol. Bydd hyn o fudd mawr wrth baratoi'r nodiadau esboniadol sy'n cyd-fynd â'r arddangosfeydd. Diolch hefyd i archfarchnad Sainsburys am ei rhodd o £100.

Croesawir unigolion a busnesau i'w noddi ac i fod yn 'Ffrindiau'r Amgueddfa'.

Mae'r amgueddfa wedi ei dynodi yn ganolfan casglu deunydd ar gyfer Casgliad y Werin, sy'n fenter o dan ymbarél y Llyfrgell Genedlaethol. Cyn hir, byddwn yn gofyn i'r cyhoedd ddod â'u lluniau, dogfennau, hen lythyron, ayyb i'w sganio, a'u uwchlwytho i'r casgliad arbennig yma. Bydd yn ychwanegu at yr hyn y medir ei weld eisoes ar y we. Daw rhagor o wybodaeth am hyn yn y dyfodol agos.

Dathlu Gorfoledd y Pasg yn Noddfa

Daeth nifer o aelodau Noddfa ynghyd ar gyfer digwyddiad arbennig i ddathlu'r Pasg. Cyfle oedd hwn i'n hatgoffa beth yw gwir ystyr y Pasg ac ar yr un pryd i gymdeithasu tra'n mwynhau swper yng nghwmni'n gilydd. Croesawyd pawb yn gynnes gan ein Gweinidog y Parchedig Jill Tomos ac yna clywsom anogaeth llythyr yr apostol Paul i'w gyfeillion yng Nghorinth, ac ychydig adnodau o'r Testament Newydd yn cyfeirio at baratodau gwledd y Pasg. Offirmwyd gras wedyn cyn i ni gyfranogi o'r prif gwrs ardderchog wedi'i baratoi gan y chwiorydd.

Wedyn clywsom hanes Iesu yn golchi traed ei ddisgyblion ac yn dilyn hyn mwynhawyd yr ail gwrs, sef dewis o bedwar pwddin chwaethus oedd yn tynnu dŵr o'r dannedd. Ar ôl paned daeth noson hyfryd i ben gyda'n Gweinidog yn gweinyddu'r cymun.

Cyn troi tuag adref diolchodd John Morgan i'n Gweinidog am ei pharatoadau, i Ann Morgan am ei chymorth hithau gyda'r trefniadau bwyd, i'r saith darllenydd ac i'r chwiorydd a'r dynion oedd wedi cyfrannu mor helaeth at y lluniaeth. Tystiai pawb ein bod wedi cael noson fendithiol a phleserus dros ben wrth ddod at ein gilydd i ddathlu gorfoledd y Pasg.

Cydymdeimlad

Estynnir cydymdeimlad dwysaf

â'r teuluoedd i gyd sydd wedi colli anwyliad yn ystod y mis.

Cymanfa'r Bedyddwyr

Cynhelir Cymanfa Ganu Bedyddwyr cylch Caio a Llanbedr Pont Steffan yng nghapel Caersalem, Parcyrhos ar Sul 17 Mai am 2.30 o'r gloch. Fel y llynedd cynhelir un oedfa yn unig, gyda'r plant a'r oedolion yn canu bob yn ail. Ein harweinydd gwadd eleni yw Mrs Delyth Morgans Phillips sydd yn wyneb cyfarwydd i bawb ohonom. Edrychwn ymlaen yn eiddgar i ganu dan ei chyfarwyddyd. Llywydd y Gymanfa yw Mr David Thomas, Bethel Cwm Pedol. Estynnir croeso cynnes i aelodau a ffrindiau o bob enwad ymuno â ni i ganu mawl i Dduw. Darperir te i bawb yn dilyn yr oedfa yng Nghanolfan Cwmann.

Cydymdeimlo

Cydymdeimlir yn ddwys ag Eluned Hopkins, Tir Glyn a'r teulu oll ar golli mam, mam-gu a hen fam-gu annwyl yn Mrs Myra Thomas o Dregaron. Hefyd o fewn yr un diwrnodau fe gollodd ei nith annwyl, Hawys Williams o Fwlch-llan.

Cydymdeimlir yn ddwys â Ieuan James, Ael-y-bryn, Heol Maestir ar golli ei wraig ar ddechrau mis Ebrill, sef Eluned.

Cofiw'n hefyd am Anwen a theulu Tafarn yr Ivy Bush ar golli priod, tad, tad-cu a hen dad-cu annwyl, Bev Coles yn ystod diwedd mis Ebrill.

Plis derbyniwch i gyd ein cydymdeimlad dwysaf yn eich profedigaethau trist iawn.

Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau i Lois Price, Langwm ar basio Arholiad Gradd 4 Piano yn ddiweddar. Mae Lois yn ddisgybl i Mrs Elonwy Davies, Llanybydder.

Dechrau Canu Dechrau Canmol

Bydd cyfle i glywed y rhaglen olaf yn y gyfres o dair a recordiwyd yn ôl ym mis Gorffennaf llynedd yn eglwys Shiloh Llanbedr ar nos Sul, Mai 10 am 7 o'r gloch ar S4C. Twynog Davies yw arweinydd y gân, ac Eurwen Davies wrth yr organ. Bydd Twynog hefyd yn cael ei holi am y mannau cysegredig yn ei fywyd a bydd cyfle i ymweld â dwy fferm sydd â chysylltiadau teuluol iddo ym mhlwyf Llanwrda, yn ogystal â'r hen gartref yn nyffryn Tywi. Gobeithio y gwnewch fwynhau'r rhaglen.

Cyfarfod Eciwmenaid

Cynhelir y cyfarfod nesaf yn y gyfres o gyfarfodydd eciwmenaid yn Festri Brondeifi nos Iau Mai 21 am 7.30 o'r gloch. Yn ôl yr arfer, bydd y cyfarfod yma yn canolbwyntio ar waith Cymorth Cristnogol gyda'r galw am gymorth yn anffodus ar



Llongyfarchiadau i dîm pêl-droed dan 14 Llambed a'i hyfforddwraig Claire am ddod yn ail yn Nhwrnament Felinfach. Da iawn hefyd i Rupert Geddes am dderbyn chwaraewr y twrnament dan 14.

gynnydd mewn gwledydd tlawd y trydydd byd. Rydym yn ffodus eleni fod Mrs Meinir James o'r swyddfa ganolog yng Nghaerfyrddin wedi cytuno i ddod i annerch y cyfarfod, a bydd yn dangos ffilm ar waith a dylanwad Cymorth Cristnogol i helpu y trueiniaid ein byd creulon i wireddu breuddwyd bod angen 'Bywyd cyn Marwolaeth'. Bydd hwn yn gyfarfod dwyieithog. Dewch yn llw i gefnogi. Byddem yn gwerthfawrogi eich cefnogaeth a'ch cwmni yn fawr. Bydd lluniaeth ysgafn yn dilyn y cyfarfod.

Diolch

Dymuna Mary Jones, Landre ddiolch o galon i'w theulu, cymdogion a ffrindiau am y llw cardiau, blodau, arian ac anrhegion a dderbyniodd ar achlysur dathlu ei phen-blwydd arbennig. Diolch yn fawr iawn i bawb.

Dymuna Rhodri Price, Langwm ddiolch i bawb am cardiau ac anrhegion a'r dymuniadau da a dderbyniodd ar ei ben-blwydd yn 18 oed.

Adran yr Urdd

Derbyniodd aelodau'r Adran a'r Aelwyd wahoddiad i ganu gyda Dafydd Iwan ar raglen Noson Lawen sydd yn cael ei ffilmio yn Llambed. Edrychwn ymlaen at gael eu gwyllo'n perfformio ar y teledu! Cafodd aelodau blynyddoedd 4, 5 a 6 gyfle i fynd am benwythnos i Langrannog a diolch o galon i'r staff hynny a wirfoddolodd i fynd gyda'r plant yn eu tro - Anthea, Arthur, Llinos, Amanda, Nicola, Anita a Wenna. Rydym yn gwerthfawrogi hyn yn fawr. Cafodd tîm rygbi'r Adran llawer o hwyl a sbri yng nghystadleuaeth rygbi'r Urdd. Daliwch ati bois.

Brondeifi

Mae gwasanaeth Sul Pawb Ynghyd a Sul y Rhoddion wedi hen sefydlu ei hun erbyn hyn, ac er bod y dyrfa wedi dirywio ychydig dros y blynyddoedd, mae yna ryw

naws arbennig o hyd yn perthyn i'r gwasanaeth.

Doedd eleni ddim yn eithriad, ond ar brynhawn Sul y 29ain o Fawrth, sef Sul y Blodau, roedd yna ystyr ehangach i'r ddau air 'ynghyd' a 'rhoddion'.

Mae tarddiad y digwyddiad yn mynd â ni yn ôl i Orffennaf 1972 pan gollodd Tecwyn Williams, Rhoslan, Cwmann ei fywyd ar Faes y Gad tra ar ddyletswydd gyda Chatrawd Frenhinol Cymru yn ardal Ardoyne, Belfast.

Yn ddiweddar derbyniodd y teulu lythyr oddi wrth yr Awdurdodau yn gofyn a fyddent yn dymuno derbyn medal gan y Frenhines er cof am Tecwyn. Ar ôl ei derbyn cysylltwyd â'r Parch Goronwy Evans yn cyfleu'r dymuniad i ddod â'r fedal i'w dangos i aelodau Brondeifi, a gan fod Sul Pawb Ynghyd ymhen rhai diwrnodau, pa gyfle gwell.

Heb yn wybod i deulu Tecwyn roedd ei ffrind mynwesol, John Gold Davies a'i briod Jennie (mab y diweddar Mr a Mrs Davies, Redhill) - un a gyd-fagwyd gydag ef ym Mrondeifi, un a gyd-ymhladdodd gydag ef yn yr un Gatrawd, a'r sawl a oedd gyntaf wrth ei ochr pan gafodd ei daro lawr - hefyd ar ddiwedd yr un wythnos wedi cysylltu â'r Parch Goronwy Evans.

Mae'r teulu yn byw ar gyrion Parc Fictoria, Treganna ac fel y gwyr llawer cafodd Pabi Coch Ceramig eu gosod llynedd yn Llundain - un i bob milwr a gollodd ei fywyd wrth frwydro dros ei wlad mewn gwahanol ryfeloedd. Roedd merch John a Jennie wedi ei dwyn i fyny i fod yn ymwybodol iawn o'r hanes am Tecwyn a oedd, gyda llaw, i fod yn was priodas i John ymhen pythefnos ar ôl iddo golli ei fywyd. Gwnaeth gais ar ran ei rhieni i brynu'r pabi ceramig ac ar ôl ei dderbyn eu dymuniad fel teulu oedd ei gyflwyno i Gapel Brondeifi i'w gadw yn ddiogel wrth ymyl y ffenestr liw sydd eisoes yn goffadwriaeth hardd iddo.

Llanbedr Pont Steffan

Heb yn wybod i Denzil a Clive Williams nac i John a Jennie Davies daethant oll i'r gwasanaeth ar y prynhawn Sul arbennig yma i dalu teyrnged i berson a oedd yn annwyl iddynt i gyd.

Dyna beth oedd Sul Pawb Ynghyd a Sul y Rhoddion yng ngwir ystyr y gair. Yn dilyn, cafwyd gwasanaeth bendithiol iawn gyda'r Parch Goronwy Evans yn gwasanaethu a Mrs Megan Davies oedd yr organyddes.

Dartiau

Nos Sadwrn 28fed o Fawrth gwnaeth Cynghrair Dartiau Llanbedr a'r 'Esgob o Bedlam' gynnal noson wych o dartiau a adloniant yn neuadd Victoria – 'Cymru yn erbyn Lloegr'. Cynrychiolwyd Cymru gan Jamie Lewis o Aberteifi a Wayne Warren o Dreorci, a chyn bencawmpwr y byd a chwaraewr 'Premier League' Stephen Bunting a chyn rif un y byd Dean Winstanley yn cynrychioli Lloegr.

I ddechrau'r noson bu pedwar o chwaraewyr lleol chwarae'n erbyn y gwŷr proffesiynol, a Richard Thomas oedd agosaf at gael un o'r 'scaps' Stephen Bunting, ond collodd o 3 i 2.

Yn y gêm ryngwladol enillodd Cymru ddwy gêm i un. Gwnaeth Dean Winstanley guro Wayne Warren, Jamie Lewis guro Stephen Bunting, a thîm dwbl Cymru yn ennill y gêm o 5 i 4 ac yn ennill y gystadleuaeth.

Roedd band 2Real wedi diddanu'r dorf; braf oedd gweld cynulleidfia wedi dod ar draws Cymru a hefyd o Loegr.

Codwyd arian at elusen Multiple Sclerosis trwy ocsiwn a raffl, a gyda help cynllun punt am bunt banc Lloyds, gwnaethpwyd dros £1,000.

Ar nos Fercher Medi 23ain, bydd nosweth arall o dartiau yn dod i'r dre yn y 'Lampeter Town Darts Masters' gyda phencampwr y byd, Gary Anderson, Michael Smith, Tony O'Shea a Darryl Fitton. Tocynnau ar werth nawr, £30 trwy law Bedwyr Davies. Ffoniwch am docynnau ar 07580128039. Ffoniwch yn fuan achos maen nhw'n gwerthu yn glou!

Cymdeithas Hanes

Cafwyd noson hynod o ddiddorol yng nghyfarfod Mis Ebrill, yng nghwmni'r Athro David Austin. Aeth â ni drwy linell amser o hanes Llanbedr a'i chyffiniau, gan fynd yn ôl 12,000 o flynyddoedd i ddiwedd Oes yr Iâ, a gweld sut yr oedd y rhewlifoedd wedi creu dyffrynnoedd yr ardal. Neidio ymlaen miloedd o flynyddoedd i'r oesoedd Cerrig ac Efydd, a gweld datblygiad yn y tirwedd, a'r meini hir yn nodi ffiniau ar y brynau. Soniodd am Garreg Hirfaen a Charreg y Bwci - a fyddai'n sefyll ar un adeg; bwyell garreg o ardal Llanwnnen, - hyn i gyd yn nodi fod dynion cyntefig

wedi ymsefydlu yma yn y bryngeiri amlwg.

Neidio ymlaen cannoedd o flynyddoedd i'r ganrif cyntaf O.C., a'r Rhufeiniaid yn gweithio'r mwynfeydd ym Mhumsaint a Llanio, gan droi llwybrau'n ffyrdd caled i hwyluso'r teithio. Datblygwyd ffermio cymysg yn ystod y cyfnod yma, a cheir cofnod o ambell i enw o'r pumed ganrif ymlaen. Y Grefydd newydd yn gweld eglwysi'n cael eu codi, rhai pren i ddechrau yn oes y seintiau, ond wedyn yn cael eu hailadeiladu mewn carreg adeg y Normaniaid.

Datblygwyd ffin i fwrdeistref Llanbedr, er fod honno'n ddwy ran, trefol a gwledig. Adeiladwyd eglwys Sant Pedr yn 'Llanbedr gwledig', ond roedd yna briordy yn y dre. Rhoddwyd siarter i'r dref yn 1284, ond roedd y farchnad yno cynt. Maenordy Bryn Hywel a'r disgynyddion yn codi Maesyfelin, yna datblygiad Plas Ffynnonbedr cyn dyfodiad yr Harfords a chodi Glynhebog. Darluniau paentiedig o'r gwŷr ariannog i'w gweld o hyn allan.

Doedd Llanbedr fawr mwy na'r Stryd fawr hyd yn hyn, ond datblygodd masnach gyda'r heoludd tyrpeg, a Llanbedr mewn lle amlwg rhwng yr arfordir a'r wlad i'r dwyrain. Y rheilffordd yn cyrraedd yn 1866, a theithio a chludiant yn llawer mwy hwylus. Wedi'r cyfnod yma, gwelwyd datblygiad mawr yn nhref Llanbedr, a thai yn codi i bob cyfeiriad o'r canol. Addysg yn cael lle blaenllaw, a chapeli'r enwadau yn codi o gwmpas y dref.

Gwelwyd colledion a galar ymysg teuluoedd wedi'r Rhyfel mawr, ond bu'r cyfnod yma yn ddiwedd ar lawer o'r 'tai mawr', hyd nes iddynt ddod yn ddim ond rhan o hanes y fro.

Diolchwyd yn gynnes i David Austin am noson arbennig gan Selwyn Walters, Cadeirydd, gan obeithio y bydd hyn yn symbyliad i'r Gymdeithas Hanes fynd ati i greu llyfr newydd ar hanes Llanbedr a'r cylch.

Bydd y cyfarfod nesaf nos Fawrth, Mai 19, am 7.30yh yn Hen Neuadd y Coleg, pan fydd John Morgan Guy yn rhoi hanes Syr Galahad a'r Rhyfel Byd Cyntaf. Croeso cynnes i bawb.

Merched y Wawr

Croesawyd yr aelodau i gyfarfod Mis Ebrill gan Mary Davies, ein Llywydd, a dywedodd ei bod yn falch i ddeall bod Eiry Jones, Brynsteffan yn gwella'n dda ar ôl ei llawdriniaeth. Cydymdeimlodd Aerwen Griffiths, ein hysgrifennydd, â Mary o golli ei mam yn ystod y mis diwethaf.

Cynhelir Taith Gerdded nodedig i godi arian i'r gangen nos Fawrth, 12fed o Fai. Cerddwyr i gwrdd ar y Rookery am 6 o'r gloch. Dosbarthwyd tocynnau ar gyfer Nosweithiau Llawen S4C sydd i'w cynnal yn y Ganolfan Hamdden,



Tîm rygbi Llanbedr o dan 11 yn arddangos eu 'hoodies' newydd sydd wedi cael eu noddi gan gwmni lleol Perpetual Systems V2 G. Mae'r tîm wedi cael tymor llwyddiannus hyd yn hyn, wrth golli dim ond un gêm. Pob lwc iddynt wrth gymryd rhan yng nghystadleuaeth y Scarlets yn fuan.



Roedd Edwin Harris o Gwmann yn rhan bwysig yng nghlwb bowlïo Llanbedr dros y blynyddoedd, ac mae ei deulu wedi rhoi mainc newydd i'r clwb i gofio amdano.

Llanbedr o'r 7fed i'r 10fed o fis Mai. Trefnwyd i gystadlu yn yr Ŵyl Haf ym Machynlleth o dan gyfarwyddyd Elin Williams. Edrychwn ymlaen at hyn. Byddwn yn ymuno â changen Cylch Aeron ar y 29ain o Ebrill pryd y disgwylir yr Archdderwydd, Christine James, yn westai yno. Diolchwyd i Janet a Rhiannon am ymweld â Chartref Preswyl Hafan deg a chytunodd Noleen a Dorothy i fynd y tro nesaf.

Ein gŵr gwadd oedd Ieuan Rees, brodor o ardal Y Tymbl a Phontyberem. Dangosodd enghreifftiau o'i waith cywrair fel llythrennydd a gwaith caligraffeg drwy gyfrwng cyflwyniad power point. Mae wedi teithio'r byd gyda'i waith a gwelir enghreifftiau o'i ddoniau yn Abaty Westminster a nifer o leoliadau pwysig eraill. Diolchwyd iddo yn bwrpasol iawn gan Aerwen. Enillydd y raffl fisol oedd Dorothy a gwnaed y te gan Avril a Gwyneth.

Cynhelir ein Cyfarfod Blynyddol fis nesaf a disgwylir hefyd Michael Morgan i arddangos sgiliau Cymorth Cyntaf yn ôl dymuniad ein Llywydd Cenedlaethol.

Ford Gron

Dyn o Los Angeles yw cadeirydd

newydd Ford Gron Llanbedr Pont Steffan.

Mewn cinio nos Fawrth yng Nghegin Gareth Goedwig, daeth Dr Kyle Erickson, sydd yn bennaeth Adran y Clasuron ym Mhrifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant yn gadeirydd Ford Gron Llanbedr. Mae Kyle yn dod yn wreiddiol o Los Angeles yng Nghalifornia ond wedi bod yn dysgu yn Llanbedr ers sawl blwyddyn. Trosglwyddodd Nathan Jorgensen, y cyn gadeirydd, gadwyn y swydd i Kyle yn dilyn blwyddyn lwyddiannus. Yn ystod y flwyddyn cynhaliwyd noson Tân Gwylt llawn bwrlwm, a Gŵyl Gwrw gyntaf y Ford Gron.

Yr is gadeirydd newydd yw Rob Phillips, cyn faer y dref. John McDonagh yw'r ysgrifennydd a Matt Cobb yw'r trysorydd. Llywydd am y flwyddyn i ddod yw Robert Jones, perchennog Canolfan Garddio Llanbedr.

Mae'r flwyddyn ddiwethaf wedi profi llwyddiant hefyd o ran denu aelodau newydd; daeth Ryan Jones, swyddog gyda'r heddlu, a Paul Lewis sy'n rhedeg busnes bara yn lleol, yn aelodau newydd ar y noson. Mae dau ddarpar aelod arall gyda ni, ond rydym yn dal i chwilio am fwy o ddynion ifainc i ymuno. Cysylltwch â ni trwy'r wefan www.lampeterroundtable.org.uk

Cofio Cliff Tucker

Nos Iau, 26 Mawrth 2015, cynhaliwyd Darlith Goffa Cliff Tucker ar gampws Llambled, Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant. Y darlithydd oedd yr hanesydd celf Peter Lord, a thestun ei ddarlith oedd 'Engagement and Escape: Welsh Painting during the Great Depression 1918-1939'. Dangosodd sut y bu i gynnwys paentiadau newid yn dilyn y Rhyfel Mawr. Yn hytrach na delfrydau cenedlaetholgar a rhamantiaeth diwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg a dechrau'r ugeinfed ganrif, gwelwyd arlunwyr Cymru yn portreadu realaeth erchyll y bywyd diwydiannol, yn enwedig dlodi enbyd y Cymoedd ac ardaloedd diwydiannol arfordirol de Cymru. Cafodd yr arlunwyr beth cefnogaeth ariannol a chymdeithasol gan Winifred Coombe Tennant ('Mam o Nedd') a fu'n barod i brynu nifer o weithiau gan yr arlunwyr hynny, a chan arlunwyr eraill a ddewisodd ddianc oddi wrth realiti'r tlodi a pheintio lluniau gwledig, amaethyddol eu natur.

Cadeiriwyd y noson gan Lywydd y Brifysgol, Dr Brinley Jones, a thalwyd y diolchiadau gan y Parchedig Ddr Densil Morgan. Cafodd y ddarlith dderbyniad gwresog gan y gynulleidfa, ac fe'i dilynwyd gan swper bwffe yn ffreutur y Brifysgol. Trefnwyd y noson gan Dr Rhiannon Ifans, ar ran Adran y Gymraeg ac Astudiaethau Dwyieithrwydd Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant.

18 oed

Dathlodd John Heath, Pontfaen Cottage ei ben-blwydd yn 18 oed ddiwedd mis Ebrill. Dymuna John ddiolch i bawb am yr holl ddymuniadau da a dderbyniodd ar achlysur ei ben-blwydd.

Ailgysegru'r caeau coffa

Nos Fawrth, 21 Ebrill, gwnaeth y Parchg Ganon Brendan O'Malley (Caplan i'r Lleng Brydeinig) ailgysegru caeau chwarae coffa Llanbed. Mae'r caeau rhain yn goffadwriaeth i'r rhai a ddiroddodd yn sgil yr Ail Ryfel Byd.

Yn yr ailgysegru roedd aelodau Lleng Brydeinig Llanbed, Tref Cyngor Llambled, a chynrychiolwyr o glybiau rygbi a phêl-droed y dref.

Roedd y seremoni hefyd yn ailgyflwyno'r hen gatau sy'n arwain at y caeau chwarae. Cyflwynwyd y gatau yn goffadwriaeth i'r Rhyfel Byd Cyntaf pan oedden nhw'n fynedfa i'r hen barc cyhoeddus tu ôl i Ffordd y Bryn. Symudwyd y gatau wedyn i'w lleoliad presennol pan ddatblygwyd y parc i stad Bryn yr Eglwys.

Cludwyr y Lleng Brydeinig oedd Sharon Morris ac Andrew James. Mae Andrew yn wŷr i Phyllis Smith MBE, sy'n 94 oed, ac roedd hi hefyd yn bresennol yn y gwasanaeth.

Trefnwyd y digwyddiad gan Faer Llanbed, y Cynghorydd Elsie Dafis.



Mae rasmus y gwanwyn yn eu hanterth erbyn hyn a rhedwyr Sarn Helen wedi cael dechrau arbennig i'r tymor.

Bu Cystadleuaeth Trawsgwlad ysgolion Dyfed yn Nantyci, Caerfyrddin ar Fawrth 19eg. Roedd nifer o redwyr Sarn Helen yn cynrychioli amrywiol ysgolion - Gwenllian Llwyd Jones, Seren James ac Osian Roberts o Carreg Hirfaen; Rhys Williams, Llanwnen; Jamie Jones, Llanwenog ac Owen Rowcliffe, Catrin Lewes, Lucy Davies, Anna Gibbons, Kodi Nisbit, Jessica Mckay, Evie Mckay a Naomi Finch o Bro Pedr.

Cynhaliwyd ras hwyl i blant cyn Duathlon Tregaron ar Ebrill 19eg, a oedd yn mynd a'r ieuencid o amgylch tref Tregaron. Daeth Jamie Jones yn gyntaf yn ras y bechgyn a Gwawr Davies yn 1af a Leah Regan yn 4ydd yn ras y merched.

Ar yr un diwrnod, aeth rhai o'n hieuencid i ras hwyl y Gerddi Botaneg. Gorffennodd Sean Wood yn y 3ydd safle mewn amser arbennig o 15.01 ac yn dilyn yn agos iawn oedd Owen Davies yn y 4ydd safle mewn 15.08.

Sêr y dyfodol! Da iawn blantos am gynrychioli'r clwb. Da iawn hefyd i blant ein haelodau sydd yn rhy ifanc eto i fod yn aelodau o'r clwb eu hunain ond sy'n neud yn arbennig o dda yn y rasmus. Edrych mlaen i gyhoeddi'ch enwau chi yn y papur pan ddaw'r amser.

Ar Fawrth 29ain, cynhaliwyd rasmus 5,10 a 20 milltir gan HBA yn Llanelli a dwy o'n merched yn perchnogi'r 2il safle. Yn y ras 5 milltir daeth Eleri Rivers yn ail yng nghategori merched dros 35 mewn amser o 40:28 ac yn y ras 10 milltir daeth Katie McDermott yn 2il yn ras y merched mewn amser o 1:17:49. Cafwyd amserau da wrth y dynion hefyd chwarae teg! Yn y ras 20 milltir, gorffennodd Terry Wyn Jones mewn amser o 2:47:11, Mitchell Readwin 2:56:58 a David Thomas 2:56:59.

Cafwyd canlyniadau arbennig gyda'r rasmus mynydd hefyd yn ddiweddar wrth i'r dewraf yn ein plith fentro rhedeg i fyny ac i lawr llethrau serth ac anwastad! Gwnaeth Daniel Hooper gwblhau 6/8 o'r rasmus WRFA cyfresi mynydd gaeaf De Cymru. Gorffennodd Daniel yn y 3ydd safle yn y gyfresi ac yn ail yn ei gategori oedran. Rhai o'i ganlyniadau gorau yn y gyfresi oedd dod yn ail yn ras Llyn y Fan ac ail agos iawn yn ras Tor Y Foel. Cynhaliwyd ras mynydd The Pipe Dream ar yr 28ain o Chwefror gyda Dylan Lewis yn dringo 1699 troedfedd dros 5.1 milltir a gorffen mewn 36.13, ac er iddo fynd ar goll yn ystod y ras (fel rhai o'r rhedwyr eraill!) fe orffennodd yn gryf iawn yn y 3ydd safle.

Ddydd Sadwrn 18fed o Ebrill, teithiodd dau aelod o'r clwb sef Dylan Lewis a Simon Hall i Blaenau Ffestiniog i gystadlu yn Ras Moelwyn sef Pencampwriaeth Prydeinig y Ras Fynydd. Mae'r ras hefyd yn cael ei hadnabod fel Ras y Tair Copa gan fod y ddringfa o 2,800 troedfedd yn mynd a'r rhedwyr dros Moelwyn Mawr, Moelwyn Bach a Moel Yr Hudd. Gwelwyd dros 350 o redwyr yn y ras gyda Dylan yn gorffen yn safle 71 mewn 1 awr 29 munud a Simon yn safle 203 mewn 1 awr 46 munud. Disgrifiwyd y ras gan ein rhedwyr fel un llafurus iawn!

Ar Ebrill 11eg, teithiodd Caryl Davies i Bortmeirion i redeg ras y 6ed llwybr a oedd yn 6K ar hyd lwybrau coed y gwyllt y tu mewn i ffiniau'r pentref unigryw. Llwyddodd Caryl i ennill ras y merched mewn amser arbennig o 35.53. Yna ddydd Sul, Ebrill 12fed, braf oedd gweld Dee Jolly hefyd yn arwain y merched yn ras 10K y Sea Cadets yn Abergwaun mewn amser o 49.26. Yn yr un ras yn brwydro'r gwyntoedd oedd Simon Hall a ddaeth yn 2il mewn amser o 38.44 a llwyddodd Nigel Davies i gael ei amser gorau ar ras 10K mewn



Dechrau ras Teifi 10 yn Llanbed. Llun: Tomos Jones.

41.26. Gorffennodd Huw Price y ras hefyd mewn amser da o 43.47 ac Alan Watts mewn 1 awr 37 munud. Llwyddwyd i godi £250 i'r Sea Cadets lleol felly diolch i'n haelodau am gefnogi.

Ddydd Sul, Ebrill 19eg, cynhaliwyd Duathlon Tregaron a oedd yn golygu rhedeg 3 milltir, beicio 15 milltir ac yna rhedeg 2 filltir i orffen. Gwelwyd cynrychiolaeth dda o'r clwb yno gyda Caryl Davies yn ennill categori y merched agored mewn amser o 1:36:21, 5 munud yn gynt nai amser llynedd. Cafwyd canlyniadau da o'r timoedd cyfnewid gyda Mike Davies a'i bartner beicio yn gorffen yn 3ydd mewn amser o 1:14:11, a Katie McDermott (yn rhedeg) ac Aneurin James (ar y beic) yn gorffen yn 6ed. Ein rhedwraig Dee Jolly oedd partner Paul McDermott sy'n gyn-bencampwr Duathlon a Triathlon ac fe wnaethon nhw orffen mewn 1:31:01.

Yng ngolygfeydd prydferth y Gerddi Botaneg ar Ebrill 19eg cynhaliwyd ras 10k a ras hwyl 2.5k i godi arian i elusen Tenovus. David Thomas a Carwyn Davies wnaeth gystadlu yn y ras 10k gyda Carwyn yn gorffen yn y 5ed safle mewn 39.28 ac yn ennill y categori dynion agored, a David yn gorffen mewn 42:42 yn y 9fed safle ac yn 2il yn y categori dynion dros 50 a hynny 7 diwrnod ar ôl ei farathon. Roedd aelod hynaf y clwb, Alan Watts (sy'n 86 oed) hefyd yn bresennol ac fe orffennodd e'r ras 2.5k mewn 26:59 – ysbrydoliaeth i ni gyd!

Ar brynhawn Sul y Pasg heulog, Ebrill y 5ed, daeth torf o 125 o redwyr i redeg ras Teifi 10 a'r oedran yn amrywio o ddeunaw i 82 mlwydd oed. Dechreuodd y ras ger y Clwb Rygbi yn Llambled cyn mynd o amgylch y dre ac yna allan am Llanfair, cyn dod yn ôl drwy Cellan a gorffen unwaith eto yn y clwb rygbi. Enillydd y ras eleni a'r categori dynion agored oedd Carwyn Jones yn wreiddiol o Dregaron ond erbyn hyn yn aelod o glwb Caerdydd mewn amser o 55.37 ac yn ennill y ras merched a'r categori merched agored oedd ei gariad Carys Mai Hughes o glwb Les Croupiers mewn 66.34, yr ail ferch agored oedd Janet Holmes 68.56 a'r 3ydd merch oedd Caryl Davies, Sarn Helen 71.43. Yr ail ferch i orffen y ras a'r cyntaf yn y categori merched 35 oedd Claire Cleathero o Trots mewn amser o 68.47, yn ail oedd Charmaine Wood 69.48 ac yn 3ydd oedd Angel Champion 72.09. Enillydd y categori merched 45 oedd y rhedwraig rhyngwladol Dawn Kenwright o glwb Sarn Helen mewn 73.29, yn ail oedd Julie Scholey 75.54 ac yn 3ydd Anita Worthing 76.59. Yn ail yng nghategori y dynion agored oedd Dylan Lewis, Sarn Helen, 57:49, 3ydd Gary Wyn Davies, Aberystwyth 58.03. Yn gyntaf yn y dynion 40 oedd Matthew Hurford, 57.50, 2il oedd Jamies Biggs 60:48, 3ydd Chris Fulcher 62.02. Yr ail rhedwr i orffen y ras ac yn gyntaf yn y dynion 50 oedd Martin Rees o Les Croupiers ac fe dorrodd record y byd ar gyfer rhedeg 10 milltir i ddyn 62 blwydd oed mewn



amser o 55.54 felly llongyfarchiadau mawr iddo. Ail dynion 50 oedd Peter Osborne, 62:26 ac yn 3ydd oedd David Thomas, Sarn Helen mewn 66.56.

Cafwyd diwrnod pleserus gan bawb yn gefnogwyr ac yn rhedwyr yn enwedig wrth iddynt groesi'r llinell derfyn a derbyn wy Pasg bach fel gwobr! Canlyniadau eraill rhedwyr clwb Sarn Helen i ddechrau gyda'r merched oedd: Sian Roberts-Jones 74:05 Katie McDermott 76:03 Dee Jolly 79:15 Eleri Rivers 81:04 Fiona Jones 86.26 Gwenan Hodgson 86:34 Carys Davies 87.09 Heather Hughes 89:01 Emma Gray 113:29. Yna gyda'r dynion fel hyn oedd hi: Carwyn Davies 61:06 Michael Davies 62:29 Llewelyn Lloyd 63:28 Simon Hall 64:09 Gethin Jones 65:11 Steven Holmes 65.24 Glyn Price 65:50 Kevin Regan 66:11 Andrew Abbott 66:33 David Thomas 66:56 Carwyn Thomas 67:33 Richard Marks 67:38 Sion Price 67:39 Andrew Davis 68:05 Nigel Davies 69:21 Tony Hall 71:15 Murray Kisbee 71:55 Kevin Hughes 74:05 Paul Edwards 75:01 Terry Wyn Jones 76:04 Eric Rees 80:29 Dorian Rees 86:11 Gareth Jones 103:04.

Marathons

Mae nifer o'n rhedwyr wedi bod yn brysur iawn yn ystod y mis diwethaf yn rhedeg amryw o farathons ar hyd a lled Prydain ac Ewrop! Gwnaeth David Thomas sy'n 52oed redeg ei 50fed marathon sef marathon Paris, Dydd Sul, Ebrill 12fed. Er nad oedd yn gallu eu gwerthfawrogi, rheddodd heibio nifer o atyniadau enwog fel y Louvre, Notre Dame y tŵr Eiffel, ac roedd y ras yn cychwyn a gorffen ger yr Arc de Triomphe. Gyda dros 40,000 o redwyr, llwyddodd i orffen y ras mewn amser arbennig o 3awr 11 munud gan sicrhau ei le yn Marathon Llundain y flwyddyn nesa trwy gynllun good for age. Yr wythnos ganlynol, ar Ebrill 19eg roedd dau o'n rhedwyr ymysg yr 8 mil o ddechreuwyr ym marathon Manceinion. Fe redodd George Eadon ei farathon cyntaf ac er iddo deimlo 6 milltir ola'r ras yn galed a heriol cafodd amser arbennig o 3 awr 24 munud 01 eiliad. Mae derbyn yr amser yma ar ei farathon cyntaf yn dipyn o gamp – llongyfarchiadau! Tim Jones oedd ein rhedwr arall ym Manceinion ac mae'n amlwg fod y gwaith caled o baratoi wedi talu ffordd iddo wrth iddo gwblhau'r marathon mewn 2 awr 49 munud a 06 eiliad sef yr amser cyflymaf i unrhyw aelod o'r clwb i gwblhau marathon ers rhyw ugain mlynedd. Gwych! Nôl yng Nghymru fach ar yr un diwrnod, aeth Nigel Davies i redeg marathon Llanelli ac er nad oedd yn teimlo ar ei orau wrth redeg y ras a phrofi pothellu poenus o hanner ffordd, llwyddodd i orffen mewn amser arbennig o 3awr 22 munud! Ar Ebrill 26ain, daeth yr amser unwaith yn rhagor i strydoedd Llundain gael eu gorchfygu gan redwyr ac yn eu plith roedd ein rhedwyr ni, Carwyn Davies, Mitchell Readwin a Terry Wyn Jones. Dyma'r ail farathon i Mitchell redeg, ond y tro cyntaf iddo redeg Llundain a llwyddodd i orffen y ras mewn 4:00:17 – amser arbennig a 23 munud yn gynt na'i farathon cynta! Roedd Terry yn rhedeg y ras am y 3ydd tro ac ar ôl newid ei dactegau wrth redeg rاس a rhoi mwy o amser i ymarfer fe gyrhaeddodd ei uchelgais o orffen marathon o dan 4 awr, ond fe wnaeth hynny mewn steil a gorffen y ras mewn 3:42 a hynny 33 munud yn gynt na'i amser gorau! Roedd Carwyn yn rhedeg marathon Llundain am y 5ed tro ac ar ôl ymarfer yn galed a llwyddo i redeg tua 60 milltir yr wythnos i baratoi, fe llwyddodd i wneud beth byddai llawer ohonom fel rhedwyr yn breuddwydio gwneud



Aelodau Clwb Sarn Helen wedi Teifi 10 yn Llanbed. Llun: Tomos Jones.

sef gorffen o dan tair awr! Fe orffennodd mewn amser arbennig o 2:58:49 a dyna'i amser gorau o 13 munud. Llongyfarchiadau mawr i bob un ohonynt!

Cyffredinol

Yn dilyn ein cyfarfod cyffredinol blyneddol ar Fawrth 12fed, rydym yn falch iawn o gyhoeddi ein capteiniaid am eleni yw David Thomas o Dalyllychau a threfnwyr Ras y Llychau 5k, a Dee Jolly – dymuniadau gorau iddynt am y flwyddyn, ac heb os mae'r ddau yn ysbrydoliaeth i ni gyd! Katie McDermott fydd y swyddog gwisg newydd, a hi yw perchennog Ruby Rose, 2 Heol y Farchnad, Llambled, felly os oes angen unrhyw eitem o wisg y clwb arnoch, gallwch alw gyda Katie yn y siop. Siân Roberts-Jones a Dee Jolly yw swyddogion y wasg erbyn hyn, a hoffem petaech yn cysylltu â ni gydag unrhyw newyddion a chanlyniadau.

Nosweithiau ymarfer y clwb rhedeg

- Oedolion: Nos Fawrth 6.15pm o'r Rookery a 8pm o'r Rookery; Nos Iau 6.30pm o'r Rookery
- Plant: Nos Iau 6.30-7.30pm ar gae'r ysgol ger Canolfan Hamdden, Llambled.

Clwb Beicio Sarn Helen

Ar fore Sul gwyntog, Ebrill 12fed daeth 25 o feicwyr brwdfrydig at ei gilydd i Glwb Rygbi Llambled i gymryd rhan mewn teithiau a oedd wedi cael eu trefnu ar eu cyfer.

Roedd yna dair taith gwahanol: aeth 4 beiciwr dewr ar daith o 50 milltir, gyda 12 beiciwr yn teithio 28 milltir, a 9 ohonynt yn mynd ar daith 9 milltir.

Aeth y ddau grŵp cyntaf ar eu taith o Lamberd i Ystrad Aeron, Dihewyd, Pontsian, ac yna ar sgwâr Alltrodyn roedd 4 o feicwyr yn mynd yn eu blaen i wneud y 50 milltir tuag at Capel Dewi, mynydd Llanllwni, Llansawel, Pumpsaint ac yn ôl i Lamberd, tra bod y daith 28 milltir yn troi nôl i fyny'r rhiw yn sgwâr Alltrodyn am Lamberd. Ymysg y criw yma roedd Llŷr Rees sy'n 8 mlwydd oed, a gorffennodd y daith mewn 2 awr a 30 munud. Tipyn o gamp wir!

O'r Clwb Rygbi tuag at WD Lewis a throi am Llanfair aeth beicwyr y 9 milltir. Yna draw am bont Llanfair ac yn ôl drwy Cellan. Er gwaetha'r gwynt fe gyrhaeddodd pawb nôl i'r clwb rygbi yn ddiogel gan dderbyn bag o nwyddau wedi eu noddi gan WD Lewis a'i fab, a diolch yn fawr iawn iddynt am eu haelioni. Ar ôl tipyn o fwyd cafwyd brynhawn da o gymdeithasu.

Bydd Clwb Beicio Sarn Helen yn gobeithio gwneud sawl taith yr un fath a hyn eto yn ystod misoedd yr haf. Felly cofiwch gadw llygad ar ein tudalen Facebook. Mae yna groeso mawr i unrhyw un ymuno â ni.

Yn ystod misoedd yr haf mae Clwb Beicio Sarn Helen yn cwrdd bob nos Fawrth a nos Iau yng Nghlwb Rygbi Llambled am 6 o'r gloch.

Ieuan Jones
Adferwr Lluniau
Cwrtycadno



Gwasanaeth
troi
Vhs i Dvd

Rhoi bywyd newydd i hen lun

Ffôn: 01558 650153

e-bost: ieuan@glynhebog.co.uk

Y we: cwrtphotorestoring.com

THE
FALCONDALE

Yn dathlu 15 mlynedd
gyda bwydlen cinio
o 12:00 i 1:30yp
Dydd Llun i Ddydd Sadwrn

Dau gwrs am £13.50
Tri chwrs am £15.00

Ffoniwch i archebu bwrdd

01570 422910

Llambled, Ceredigion

ANDREW JAMES

PLYMWR PROFIADOL



Gwasanaethu boeler olew
Gwres canolog
Ystafelloedd ymolchi a cheginiau
Ffôn: 07811052757
E-bost: dandrewj@icloud.com

Gwersi TELYN a
Gwersi PIANO preifat



Am wybodaeth bellach
cysylltwch â
Georgina Cornock-Evans
07967 648336

Gwasanaethu, Cynnal a Chadw
- Boileri a Ffynau Olew
- Pympiâu Gwres o Ffynonhellau'r
ddae'r awyr
- Paneli Thermal Solar
- Silindrau heb awyrellau



01559 370997 / 07966 592183
aled.evans1@btinternet.com

Llanfair Clydogau

Ymddiheuriad

Ymddiheuriadau'n gyntaf am adael allan hanes noson Cawl a Chân fis diwethaf. Cafodd y noson ei threfnu gan Sefydliad y Merched a'i chynnal yn y Neuadd i ddathlu Dydd Gŵyl Ddewi. Yn ôl pob sôn cafwyd noson hwylus dros ben gyda chwarae brwd. Cafwyd cawl blasus wedi ei baratoi gan Eleanor Evans, Nantymedd, a bara a chaws. Mae'r noson hyn yn un llwyddiannus bob blwyddyn ac yn un y mae pawb yn edrych ymlaen ati.

Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau i Laura ac Alan Dickson, Nantyrarian, sydd newydd briodi wedi bod gyda'i gilydd ers tri deg o flynyddoedd. Dymuniadau gorau iddynt am flynyddoedd o hapusrwydd eto.

Mynwent y Pentref

Mae'n rhaid sôn unwaith eto am y gwaith caled sydd yn dal i fynd ymlaen i adnewyddu wal y fynwent. Mae Alan Leech, gyda help Ieuan, Y Felin, a Tim, Efail Fach, ac eraill, bron a gorffen, ac yn wir mae'n bleser gweld llafur eu gwaith. Yn ystod y gwaith darganfuwyd beddau dau blentyn bach o dan tua dwy droedfedd o bridd a cherrig. Nid oedd dyddiad ar y cerrig beddau ond roedd llythrennau arnynt. Damwain hollol oedd eu darganfod. Y llythrennau arnynt oedd E.H.W. ac M.H.W. Ar ôl ymchwil darganfuwyd fanylion am un o'r beddau, E.H.W. oedd Evan Henry Williams, Llwynpiod, Heol Llanfair, a fu farw yn blentyn bach chwech wythnos oed fis Mawrth 1897. Gan fod yr ail a'r trydydd llythyren yr un fath mae'n siŵr fod y babanod yn perthyn, efallai yn efeilliaid Mae mynwent yn gallu bod yn lle diddorol iawn yn enwedig i haneswyr.



Sefydliad y Merched

Nos Iau Ebrill 23ain cynhaliwyd noswaith agored yng nghwmni Erwyd Howells. Cafwyd noson o fwynhad arbennig gydag oddeutu hanner cant wedi dod ynghyd i wrando ar hanes bugail. Mwynhad oedd gwrando ar storïau hudol unigryw Erwyd am ei fywyd fel bugail ar fynyddoedd Ponterwyd, Nant-y-moch a Thregaron, hanes yr offer a ddefnyddiai fel ei ffyn, a'r ffordd y defnyddiai chwibanu i reoli'r cŵn. Cafwyd lluniaeth hyfryd gan y merched fel arfer a phawb wedi mwynhau noson ddiddorol.

Pêl-droed

Llongyfarchiadau cynnes i Brynmor Thomas, Awelon, Heol Llanfair am gael ei ddewis yn 'goli y dydd' yng ngwyl C.P. D. Pêl-droed Felinfach yng nghategori dan un ar ddeg. Dyma'r eildro iddo ennill y clod yma mewn tri thymor. Da iawn ti.



Noson Canu Gwlad

Daeth nifer dda ynghyd i wrando ar y grŵp Brenig Folk o Aberystwyth nos Sadwrn Ebrill 25ain. Grŵp o dri ydyn nhw, y dyn yn dod yn wreiddiol o Dregaron yn chwarae'r gitâr ac yn ysgrifennu caneuon ei hun, gydag un ferch yn chwarae'r iwcaili a chanu, a'r ferch arall yn chwarae ffidl a chanu. Grŵp talentog. Yn ystod eu hegwyl bu merch arall dalentog o'r enw Georgia Owen o Abermeurig yn canu yn Gymraeg a Saesneg gyda gitâr acwstig, ac roedd yn wir yn bleser i wrando arni. Roedd cwrw, gwin a lluniaeth ar werth, a'r noson wedi'i threfnu gan Lesley Stevens ac eraill o'i theulu. Noson o

gwmni da ac adloniant hyfryd. Edrychwn ymlaen at noson arall fel hyn yn fuan.

Sefydliad y Merched

Cynhaliwyd Rali y Gwanwyn, Ceredigion ar Ebrill 18fed yng Nghiliau Aeron eleni. Yn ôl pob sôn roedd yn Rali dda gyda llawer o aelodau dros y sir wedi cymryd rhan. Mae rhai o aelodau Llanfair yn weithgar a thalentog dros ben ac wedi bod yn llwyddiannus iawn dros y blynyddoedd diwethaf. Eleni daethant yn gydradd drydydd yn y sir. Llongyfarchiadau cynnes i Elaine, Iris, Iola, Eleanor ac Annie a gymerodd ran yn y peintio, crefftau, coginio a threfnu blodau. Da iawn bawb.

Cydymdeimlad.

Trist oedd clywed am farwolaeth Annie Clark, a ddaeth i fyw i Esgairgarn saith ar hugain o flynyddoedd yn ôl gyda'i gŵr a'i phlant. Roedd Annie yn berson tirion a chreadigol, yn hoff o natur ac anifeiliaid, yn hoff o nyddu a gwehyddu gyda grŵp lleol, a wedi bod yn ysgrifenyddes cofnodion y Sefydliad y Merched yn Llanfair am un ar ddeg mlynedd. Cydymdeimlwn â'r plant a'i ffrindiau.

Apêl

A fyddwch mor garedig â chysylltu â Dan neu Aerwen (493407) os bydd newyddion gennych yr hoffech ei gynnwys yn Clonc. Byddai hyn yn help mawr i ni.

Cellan



Bant a'i Phen oedd thema disgyblion blwyddyn 5 a 6 hanner tymor diwethaf, ac uchafbwynt y thema oedd ail-greu erlyniad Anne Boleyn. Am ddiwrnod! Gwisgodd pawb yng ngwisg y cyfnod, a thrawsnewidiwyd neuadd yr ysgol i Neuadd y Brenin yn Nhŵr Llundain. Cafwyd profiad dysgu gwych, gyda gwaith ysgrifenedig campus yn deillio o'r diwrnod.

Diolch

Dymuna Mrs Mary Jones, Hafan ddiolch i'r meddygon a nyrsys Ysbyty Glangwili am y gofal a dderbyniodd yno yn ystod yr wythnosau diwethaf. Hefyd i'w pherthnasau, cymdogion, ffrindiau ac aelodau Eglwys Cellan am bob consyn amdani, ac am yr holl alwadau ffôn a'r cardiau a dderbyniodd tra'r oedd yn yr ysbyty.

Hefyd diolch i deulu Glancarrog, Llanrhystud am y gofal a'r caredigrwydd a dderbyniodd ganddynt ar ôl cael ei rhyddhau o'r ysbyty ac wedi dychwelyd i Hafan. Diolch i BAWB.



Cofrestrwch ar wefan
gymunedol newydd
www.clonc360.cymru
er mwyn cyfrannu
eich stori chi.

Drefach a Llanwenog

Ysgol Llanwenog

Hoffem groesawu Mari Evans i'r Dosbarth Derbyn. Mae wedi setlo'n arbennig o dda ac wedi gwneud llawer o ffrindiau newydd yn barod.

Llongyfarchiadau mawr i Ethan Rees am ddod yn drydydd gyda'i waith celf a chreffft yng nghystadleuaeth yr Urdd o fewn y sir. Enillodd Madi Potter o fewn y sir wrth greu fferm 3d, ac mae hefyd wedi ennill yn genedlaethol! Arbennig yn wir! Os ydych felly, yn meddwl mynd i Eisteddfod yr Urdd yng Nghaerffili, ewch i'r pafiliwn Celf a Chreffft er mwyn gweld ei gwaith buddugol yno.

Mae disgyblion blwyddyn pedwar a phump wedi mwynhau cyfres o wersi beicio'n ofalus yn yr ysgol. Maent nawr wedi mentro allan ar yr heol fawr ac yn gwella o ran hyder a medrusrwydd.

Bu plant blwyddyn chwech yn ymweld ag Ysgol Bro Pedr fel rhan o gynllun pontio fydd yn hwyluso'r broses o drosglwyddo i'r Uwchradd. Maent wedi derbyn amrywiaeth o brofiadau newydd a chyfle i ymgylchwyddo yn raddol â'r amgylchiadau newydd.

Cafwyd cryn lwyddiant yng nghystadleuaeth rhedeg traws gwlad y cylch a gynhaliwyd yn Llanbedd yn ddiweddar.

Daeth Jamie Jones a Molly Greenfield yn gyntaf yn eu rاسus hwy a gwelwyd perfformiadau da gan Luke Thomas, Sion Okeeffe, Sara Thomas, Rhodri Gregson, Tyler Walker, Elen Morgan, Harri Rivers, Hannah Ayonadu a Teleri Evans. Bydd y disgyblion a ddaeth yn y deg cyntaf yn cynrychioli'r cylch yng nghystadleuaeth Ceredigion yn Aberaeron.

Derbyniodd plant Cyfnod Allweddol 2 sesiwn hyfforddi ar ddiogelwch ar y traeth a'r arfordir. Daeth dau gynrychiolydd o'r RNLI i drafod a dangos adnoddau pwysig a derbyniwyd llyfryn er mwyn dysgu ymhellach. Roedd yn sesiwn fywiog a diddorol. Gobeithio y cawn dywydd da yn y dyfodol agos er mwyn medru mwynhau yn ddiogel ar y traethau cyfagos.

Mae plant yr ysgol gyfan wedi bod yn mynychu'r clwb chwaraeon a'r clwb garddio yn wythnosol ac wedi cael hwyl yn cymryd rhan mewn gweithgareddau amrywiol. Cawn weld maes o law pwy fydd yn medru annog tyfiant a meithrin y blodyn haul talaf!

C.Ff.I. Llanwenog

Mae'r gwanwyn wedi cyrraedd o'r diwedd ac yn dynodi mis prysur arall i Glwb Ffermwyr Ifanc Llanwenog. Ar y Sed o Ebrill cafodd nifer o'r aelodau hyn ddigon o sbort yn niwrnod hwylus

y Pasg yng Nghlwb Rygbi Llanbedd; roedd yn gyfle i gymysgu a chael sbri gydag aelodau eraill y sir.

Ar y 13eg cynhaliwyd Gala Nofio'r Sir ym mhwll nofio Aberaeron, a bu Menna Williams, Enfys Hatcher, Sioned Davies, Rhys Davies, Elin Davies, Daniel Morgans a Gethin Morgans yn cystadlu ar ran y clwb. Noswaith o ymlacio oedd hi ar yr 20fed gydag aelodau iau a hŷn yn mynd am drip i sinema Caerfyrddin gyda'n gilydd. Os oes gennych ddiddordeb yn ymuno â'r clwb neu eisiau rhagor o wybodaeth, ewch i'n gwefan: www.cfffillanwenog.org.uk

Eglwys Llanwenog.


Wedi tymor dwys Y Grawys cawsom arweiniad gan ein ficer y Parch Suzy Bale i lawenhau a chlodfori Gŵyl y Pasg mewn nifer o wasanaethau yn y bedair Eglwys. Yn Llanwenog ar nos Iau Cablyd daeth nifer fechan i Swper Agape. Daeth pawb a phlât bach o fwyd i'w rannu. Rhannwyd y gwin gan ein ficer, a'r cyfan yn goffadwriaeth o swper olaf yr Iesu.

Cyn Sul y Pasg bu'r gwagedd yn addurno'r Eglwys gyda gosodiadau celfydd o flodau'r Gwanwyn. Diolch iddynt am eu cyfraniadau hael, roedd eu hymdrechion yn dyst i'r gorfoledd a'r llawenydd sydd ynghlwm ag atgyfodiad Crist. Gwerthfawrogwyd yr harddwch a'r hanes sy'n perthyn i'r lle gan yr aelodau a llu o ymwelwyr. Diolch iddynt am eu sylwadau cefnogol.

Trist yw cofnodi marwolaeth Mr Dennis Jones, y saer maen crefftus a dawnus. Cynhaliwyd cynhebrwng preifat dan ofal y Parch Suzy Bale gyda Mrs Pauline Roberts wrth yr organ. Cydymdeimlwn â Mrs Dorothy (Dot) Jones a'r teulu yn eu colled. Roedd Dennis yn berson hoffus a diymhongar. Mae'n hyfrydwch fod ei fab John yn meddiannu'r grefft ac yn olyniaeth i'r teulu dawnus.

Llongyfarchiadau i'r Cynghorwr Euros a Mrs Janet Davies, Llys y Wawr, Cwmsychbant ar enedigaeth wyres iddynt, sef Alaw Grug - merch fach i Carys a'i phartner sy'n byw yn Llanon; gor-wyres hefyd i Mrs Mair Davies, 2 Highmead Cottage, Rhuddlan. Yr ydym yn falch clywed fod Mrs Margaret Rees, Llysdolau, Rhuddlan yn gwella wedi anffawd difrifol yn ei chartref. Gwellhad buan iddi ac i Mr Daniel Thomas, Ffosffald sy'n derbyn triniaeth ar hyn o bryd.

Cofiwn am bawb sy'n anhwylyd ac am Bronwen Jones Greenhill a Mrs Nancy Davies sydd yng nghartref Hafan Deg ar hyn o bryd. Ein cydymdeimlad didwyl



Ethan Rees a Madi Potter, Ysgol Llanwennog - Buddugwyr yng nghystadleuaeth Celf a Chreffft yr Urdd.

â'r teuluoedd sydd wedi colli anwyliad yn ddiweddar.

Clwb Cant – Chwefror: 1. Arwyn Jones, Gellideg; 2. Brian Lewis, Rhiwson Uchaf; 3. Bernice Leppard. Mawrth: 1. Jac Evans, Vale of Cledlyn; 2. Anthony Davies; Llanybydder; 3. Glenys Williams, Llanybydder. Ebrill: 1. Liz Tipping, Llanwenog; 2. Clive Davies Rhydyfodrwydd; 3. Terry Pocock, Llambled.

Y Gymdeithas Hŷn

Er mae dechrau Ebrill oedd hi, cafwyd diwrnod eithriadol o braf i ddechrau'n cyfres o dripiâu'r haf. Taith i Aberhonddu oedd hon, i ymweld ag Amgueddfa'r Gwarchodlu Cymreig yn y dref, gan fod eleni yn nodi canmlwyddiant ei sefydlu. Er treulio yn agos i ddwyawr yno, doedd dim digon o amser i weld y cyfan, cymaint o hanes ac hanesion.

Cyfle wedyn am baned, a chael amser o gwmpas y dref cyn cychwyn am adre, a chael pryd blasus o fwyd yn Nhafarn Jem.

Bydd y trip nesaf ddydd Mercher y 13eg o fis Mai, pan fyddwn yn mynd i weld Castell Aberteifi sydd wedi agor i'r cyhoedd ers y Pasg. Enwau i Yvonne – 480590 cyn gynted â phosib.

Eisteddfod Rhys Thomas James (Pantfedwen)
Llanbedr Pont Steffan

Gwahoddir ceisiadau i

ARLWYO

[Lluniaeth ysgafn am bris rhesymol]

yn yr eisteddfod, penwythnos Gŵyl y Banc 2015
(Sadwrn 29ain Awst a Llun 31ain Awst)

Lleoliad: Ysgol Bro Pedr, Llanbedr Pont Steffan

Cynigion i law erbyn Mai 23ain 2015

Dorian Jones, Ysgrifennydd Cyffredinol,
Glennydd, Stryd Newydd, Llanbedr Pont Steffan
post@doriancop.plus.com

Am fanylion pellach, ffoniwch 01570 422678



Mwy na brocer yswiriant.
Mwy na yswiriant fferm.



Gweithio'n lleol? Byw'n lleol?
Yswirio'n lleol.

Gwasanaethau Yswiriant FUW
21 Stryd Fawr, Llanbedd
Ceredigion, SA48 7BG

Swyddfa: 01570 422556

Carys Davies: 07890 883346

Gwion James: 07980 608337

www.fuwinsurance.co.uk

Mae Gwasanaethau Yswiriant FUW Cyf yn cael ei awdurdodi a'i reoli gan y
"Financial Conduct Authority", Rhif Cofrestru 615251.



CELF I CEGIN A 'STAFELL
WELY, ATELOGION CEGIN
WEDI EU FFITIO,
TEILS WAL A LLAWR

DOLGADER,
SGWAR Y FARCHNAD,
LLANYBYDDER
01570 480257

COMPASS
OFFICE
SUPPLIES

Am eich holl
ddeunydd swyddfa

Uned 12 Stâd Ddiwydiannol
Llambled, Heol Tregaron,
Llambled.

☎ 01570 422955

☎ 01570 422232

Oh My Cod

Siop Pysgod a Sglodion

**19 Stryd Fawr,
Llanbedd**

Oriau Agor:
Llun - Sadwrn 12 - 9
Sul - ar gau

CANOLFAN ADDURNO

AA

A

Dewis arbennig o bapur, paent ac
offer i wneud addurno yn bleser.

Llyfrau Patrwm, Offer llaw a
phwerau, Polion a thraciau lleni,
gwasanaeth torri allwedd i
pheiriannau cymysgu paent
Dulux a Leyland.

Arbenigedd ar garreg eich drws.

3 Stryd y Bont
Llanbedr Pont Steffan
01570 423156

Eisteddfod Capel y Groes

Cynhaliwyd Eisteddfod Gadeiriol Capel-y-Groes ar ddydd Mercher, Ebrill 8fed 2015. Eisteddfod lwyddiannus iawn o safon uchel. Ein beirniaid eleni oedd Efan Williams, Lledrod (Cerdd) a Mair Wyn, Glanaman (Llên ac Adrodd). Cyfeilydd eleni oedd Gwawr Jones, Meysydd, Drefach, Llanybydder. Llywydd y dydd oedd Mrs Minnie Davies, Ffynnonudur, Drefach Felindre. Enillydd y gadair oedd Sioned Martha Davies, Gwyddgrug, Pencader. Roedd y gadair yn rhoddedig gan Euros a Rhian Morris, Llety'r Gof, Parc yr Ynn, Llandysul. Lluniau ar y dudalen gefn.

Brawddeg yn defnyddio enw unrhyw afon
CLEDDAU
Crist ledodd ei ddwylo ac ufuddhau.
Carys Briddon, Tre'r Ddol

Limrig
Ar Mars ces i wyliau i'w gofio
A'r awyr mewn cylch yn disgleirio
Y sêr a'r planedau
A'r holl ryfeddodau
Mae'n wyliau na fedraf anghofio.
Dim enw ar gael.

Brysneges ar y llythyren B
Brynderi
Bethesda
Ben brioda Beti ben bore
Byddwch bresennol
Buan bydd baban
Buddug
Megan Richards, Aberaeron

Creu dihareb newydd yn ymwneud a caru neu priodi neu'r ddau.
Agor dy lygad cyn agor dy geg.
Mary Morgans, Llanrhystud.

Cerdd – Newid
Fy ngwreiddiau sydd yn ddwfn
Yn Salem Rhyd-y-fro,
A heddi yn fy hiraeth
Es yno i roi tro.
Mae'r allor wedi chwalu
Rhwyng muriau'r capel bach
Lle bum yn dweud adnodau
Yn blentyn llon ac iach.

Mae'r drws yn lled agored
Dan ddrain a drysni'n drwch
A'r seddau deri'n llwydwyn
Dan gawod drom o lwch.
Dychmygais glywed lleisiau
Yn y parwydydd llaith
Yr hen bregethwyr tanllyd
Fu yma ar ei taith.

Hen hoelion wyth yr ardal
Mewn gweddi ac mewn can
A'u gwreiddiau wedi selio
Ar foli'r Iesu glân.
Mae'r gloch fu'n galw'r plantos
A'r cloc a'r Beibl mawr
A'r pulpud deri'n gorwedd
Yn chwilfriw ar y llawr.

Ceir oedfa dawel heno
Yn Salem Rhyd-y-fro
Ond sŵn y gwynt yn chwythu
Drwy lechi llwyd y to.
Mary Morgans, Llanrhystud

Cân ysgafn neu ddychan
Cyrhaeddodd dydd yr etholiad
A phawb drwy'r wlad oedd yn falch
Ar ôl gwrando'r holl gelwyddau
Ddeuai o geg llawer gwalch
Y Rhyddfrydwyr a'r Ceidwadwyr
A addawai'r byd i gyd
Llafur Newydd a Phlaid Cymru
Mynnai'n sylw ni o hyd.

'Roedd pob un am fod yn arwr
A'r wlad a fyddai lawn swyn
A ninnau gyd yn ei credu
Heb weled bellach na'n trwyn
A draw yr aeth pawb i'r orsaf
Yn gynnar ben bore lau
Er mwyn i'r groes cael ei rhoddi
Cyn i'r drws am ddeg ei gau.

Yna cyrhaeddodd y foment
Ac mi aethant oll ar frys
I ddechrau cyfri'r pleidleisiau
A phawb oedd yno yn chwys
A phan y daeth y canlyniad
Mi gafwyd sioc oedd yn fawr
Gan nad oedd neb yn disgleirio
A thawel iawn oeddent nawr.

Ond gan fod David Cameron
'Ryw ychydig ar y blaen,
Ond heb ddigon o bleidleisiau
I gael arwain heb 'run straen
Y peth gorau oedd cael Clymblaid
Er mwyn cadw pethau fynd
A cheisio ennill mwyafrif
Os caled fyddai hi mynd.

Buont yn hir mewn trafodaeth
A chaled iawn fu y dasg
Cyn iddynt wir benderfynu
A dwedyd wrth y wasg
Y byddai'n ffrainc i gydweithio
'Da'r Rhyddfrydwyr dydd a ddaw
Ac yno y ddau a welwyd
Yn gytûn yn ysgwyd llaw.

Ac o roedd NicR yn hapus
Yr oedd wedi cael ei 'chance'
I weithio gydag ef David,
Wel nawr y bydd 'song and dance'.
Dyrchafwyd yn Is weinidog
Mi gai eistedd gerllaw Cam
Os bydd y blaid yn wahanol
Pa wahaniaeth wir o'r dam.

Dim ond meddwl am eu hunain
Y mae yr holl daclau blin
Nid oes ots 'da neb sydd yno
Bod y wlad yn mynd a'i thîn.
Ni wyddant pa beth yw bywyd
A chyflogau bitw bach
Mae hwy yn cael ei holl dreuliau
Ar ben eu cyflogau iach.

Mae'n fodlon iawn ar bolisis
Sy'n wahanol i'w blaid ef
Pa wahaniaeth sydd a'm hynny
Gan y mae ef yn ei nef
A pham fydd y prifweinidog
Yn crwydro ar draws y byd
Fel y mae yn rhaid iddo fyned
I'r gwledydd tramor o hyd.

Pwy fydd yno'n llywodraethu?
Wel Nick Clegg a'i feddwl mawr.,
Ac yno rydd orchmynion
I'r aelodau oll o'r llawr.
Mae y ddau yn wir yn ddyddiol
Yn llanw papurau'r wlad
Yn sonio am egwyddorion
A dweud na chawn ni ddim brad.

Mae yn bryd i'r rhain wir gofio
Pwy a'i rhoddodd yn y swydd
Er mwyn iddynt gael bonusus
A threuliau a ddaw yn rhwydd.
'Rwy'n credu wir bod y Clymblaid
Wedi cael eu hawr yn awr
Gan maent yn cicio yn y trasus
A chredu ei bod yn fawr.

Ond pan ddaw fis Mai eleni
Yr wyf yn ddigon siŵr
Y bydd yna siom ofnadwy
Yn disgwyl sawl gwraig a gŵr
Pan yr UKIP fydd lwyddiannus
Hwy a ddaw yn ôl o'r wlad
I wneud elw unwaith eto
Ac i'w rhoddi ar ei thrâd.
Megan Richards, Aberaeron

Swdocw

Sut i chwarae – Rhaid i chi gwblhau'r grid gyda phob colofn, pob rhes a phob bocs yn cynnwys y rhifau 1-9

Enw _____
Cyfeiriad _____
Cod post _____
Rhif Ffôn _____

Atebion i: Tŷ Cerrig, Cwmann, SA48 8ET
Gwobr: Pecyn Nwyddau Clonc
I'r ateb cywir cyntaf allan o'r het.

1			2	6				9
				4		2	5	7
	8				3	4		
6	4						9	3
		5	9				2	
8	3	6		1				
4				3	7			8

Atebion Swdocw mis Ebrill:

Llongyfarchiadau i: Hugh Evans, Coedparc, Llanybydder, a diolch i bawb arall am gystadlu: Avril Williams, Y Fedw, Cwmann; Bethan Williams, Neuadd Fryn, Llanybydder ac Eurwyn Davies, Heol-y-Gaer, Llanybydder.

8	6	4	5	3	1	9	7	2
9	5	3	2	8	7	1	4	6
2	7	1	4	6	9	8	3	5
6	1	2	8	5	4	3	9	7
5	4	8	7	9	3	6	2	1
3	9	7	1	2	6	4	5	8
7	8	6	3	4	5	2	1	9
1	3	9	6	7	2	5	8	4
4	2	5	9	1	8	7	6	3

Gweithdy Llechi Cymreig, Enwau Tai, Dillad,
Llyfrau, Cds, Dvds, Anrhegion, Oriol a
Gwasanaeth fframio lluniau ayb

Sianti

Uned 2 Monumental Works,
Stryd y Fro, Aberaeron
gyferbyn a Banc y Natwest

01545 571510

www.sianti.org

Gwasanaeth Lamineiddio Dyffryn Aeron

Diogelwch eich gwaith
mewn maint A4 i A1

Prisiau rhesymol i
unigolion, ysgolion a
myfyrwyr

Cysylltwch â Roy Davies
ar 07792 627974.

Ruth Thomas a'i Chwmni Cyfreithwyr

Adeiladau'r Llywodraeth,
Heol Pontfaen, Llambled
Ffon: 423300 Ffacs: 423223
mail@ruththomassolicitors.co.uk

yn cynnig pob gwasanaeth
cyfreithiol
Apwyntiadau hwyr neu yn eich
cartref

Ymgynghorwyr Yswiriant Eryl Jones Cyf

Beth am gysylltu â ni am amcan-bris
i'ch holl anghenion yswiriant?

Car, lori, fan,
beic modur



Yswiriant tŷ/
cynnwys

Teithio

Fferm a busnes

Cyfrifoldeb

Anifeiliaid

Polisiau Cystadleuol i bob math o yswiriant,
cyngor a chefnogaeth yn rhad

Swyddfa'r Hen Fanc, 6 Stryd Fawr
Llanbedr Pont Steffan, SA48 7BA

Ffôn: 01570 422401

Ffacs: 01570 422562

Authorised & Regulated by The Financial Conduct Authority

T. Emyr Jones Adeiladwr



Araul, Cwmann

01570 423921

07867 945174

Llanybydder

Eglwys San Pedr

Cynhaliwyd gwasanaeth ddydd
Gwener y Grogllith am 2.30pm er
mwyn olrhain oriau olaf yr Iesu.
Hefyd, ar Sul y Pasg am 8.30am
i nodi'r achlysur holl-bwysig yn
nghalendr yr Eglwys.

Diolch yn fawr i Mrs Jean Davies,
Heol y Gaer, Llanybydder am ei
gwasanaeth hir ac ymroddgar fel
organyddes yr Eglwys dros ystod o
hanner canrif. Diolch iddi am ganu'r
organ i safon uchel ar bob achlysur.
Roedd y gerddoriaeth yn aml yn
tywys y gynulleidfa i bresenoldeb
Ein Harglwydd gan ychwanegu ystyr
a phleser i'r gwasanaethau.

Dymunwn yn dda i Jean yn y
dyfodol wrth iddi barhau i fod yn
aelod arbennig o'r Eglwys.

Estynnir cydymdeimlad dwysaf
â theulu'r diweddar Mr Dennis
Jones (Stonecutter), Bontnewydd,
Llanybydder. Cofiw'n am Dot a'r
plant sef Martin, John, Anne a
Franics a'u teuluoedd yn ystod yr
amser anodd hwn. Bu Dennis yn
aelod ffyddlon a gwerthfawr o'r
Eglwys am flynyddoedd ac yn sicr
bydd bwllch ar ei ôl.

Cofiw'n hefyd am deulu'r diweddar
Mrs Clagg, Llanybydder a fu farw'n
ystod y Pasg ac yn ei nawdegau.
Bu iddi fynychu'r Eglwys yn
rheolaidd ac yn sicr gall ddweud, 'Mi
ymdrechais ymdrech deg'.

Dymuniadau gorau i bawb sy'n aelod
o'r Eglwys ond sydd heb fod yn medru
mynychu'r Eglwys cyn amled ag o'r
blaen megis Mrs Eurwen Prosser, Mr &
Mrs Pybus; Mrs Rachel-Anne Thomas
(Hafod gynt); Mrs Val Davies ac
unrhyw un arall sydd heb ei gynnwys.
Boed i Dduw fod yn gymorth ac yn
nerth i chi. 'Codaf fy llygaid tua'r
mynyddoedd, o ble y daw cymorth I
mi? Daw fy nghymorth oddi wrth yr
Arglwydd, creawdwr nefoedd a daear'
(Salm 121: 1-2)

Wyres fach

Ddiwedd mis Mawrth ganwyd
wyres fach, Bela Gwanwyn, i Linda a
Noel Davies, Cadwyn Aur, merch fach
i Gary a'i wraig Buddug yn Nebo.
Dymuniadau gorau i chwi fel teulu.

Cydymdeimlo

Yn ystod y mis cafwyd colled
fawr yn yr ardal pan glywyd
am farwolaeth Dennis Jones
(Stonecutter), Bontnewydd,
Llanybydder. Cydymdeimlir yn
ddwys iawn gyda'i briod Dot a
chyda'r teulu i gyd yn eu colled.

Hefyd cydymdeimlwn yn ddwys
â Mr Bertie Thomas o Fferm Maes
y Meillion a'r teulu i gyd yn dilyn
marwolaeth ei wraig a oedd hefyd
yn fam ac yn fam-gu annwyl, Mrs
Brenda Thomas.

Unwaith yn rhagor y mis hwn
danfonwn ein cydymdeimlad
dwysaf a llwyraf at Arwyn ac Elma
Jones, Tangar a'r teulu yn dilyn eu
profedigaeth o golli tad, tad-cu a hen



Dewiswyd y swyddogion canlynol ar gyfer Carnifal Llanybydder ar y
27ain Mehefin: Elain Williams - Brenhines y Rhosod; Cerys Lloyd -
Morwyn; Jessica Thomas - Morwyn, Gweno Jones - Brenhines y Tylwyth
Teg a Rhys Jones - Tywysog Bach.

dad-cu annwyl yn dilyn marwolaeth
Ieuan Jones o Lambled yn ystod y
mis. Bu'r gwasanaeth angladdol yn
Eglwys Sant Padrig, Pencarreg.

Diolch

Dymuna Dillwyn ac Anne
Gibby, Erwlun ac Iwan a Vicky yn
Floerence, Kentucky, U.S.A. ddiolch
i bawb am yr holl gardiau, anrhegion
ac arian ar enedigaeth Nia Anne
Gibby ar Fawrth 16eg.

Ysgol Llanybydder

Dechreuodd tymor newydd arall,
ac fel arfer ar ddechrau tymor, roedd
yn bleser croesawu chwe disgybl
newydd i'r ysgol. Mae'r chwech wedi
ymgartefu'n dda yn y Cyfnod Sylfaen.

Mae wedi bod yn dymor prysur
hyd yn hyn gyda'r plant yn mynychu
nifer o wahanol weithgareddau.

Bu Blwyddyn 5 a 6 yn Amgueddfa
Abertawe gan eu bod yn gwneud
gwaith ar y 40au a'r Blitz.
Mwynhawyd y daith yn fawr iawn.

Hefyd, cafodd y dosbarth
hyfforddiant Cymorth Cyntaf
o dan arweiniad PCSO Eleri ac
Alice. Mae'r plant i gyd wedi cael
tystysgrif - da iawn blant a diolch i
Eleri ac Alice am ddod i'r ysgol.

Mae nifer o ddisgyblion wedi bod
yn cymryd rhan mewn gwahanol
chwaraeon yn ystod y mis.

Cynhaliwyd twrnamaint rygbi a
phêl-droed - gwnaeth y timoedd yn
dda, chware teg. Bu Blwyddyn 3 a 4
am brynhawn o weithgareddau aml
sgiliau yn Llambled.

Cynhaliwyd cystadleuaeth
Trawsgwlad yn Llambled ddydd
Gwener 24ain o Ebrill. Da
iawn i bawb a gymerodd ran.
Llongyfarchiadau i'r rhai sydd wedi
llwyddo i fynd ymlaen i'r rownd
nesaf yn Aberaeron, ddydd Gwener
Mai 1af. Pob lwc i chi gyd!

Roedd pawb yn gyffrous yn y
Cyfnod Sylfaen un bore pan ddaeth
aelod o gwmni Braces i'r ysgol i
ddangos i'r plant sut i wneud bara.

Cafodd pawb dorth o fara i fynd adref.

Cynhaliwyd 'Football First

Speed Shot Challenge' yn yr ysgol.
Gweithgaredd oedd codi arian.

Cafodd y plant lot o hwyl yn cicio'r
bêl i'r gôl. Rydym yn ddiolchgar
i'w cwmni am drefnu ac am ddod i
gynnal y digwyddiad.

Fel yr ydym i gyd yn gwybod,
mae'r Etholiad ar garreg y drws, ond
roedd yn ddiwrnod pwysig i ni yn yr
ysgol ddydd Gwener Ebrill 24ain pan
gawson Ffug Etholiad ein hunain.
Blwyddyn 5 a 6 oedd yr ymgeiswyr,
wedi eu rhannu i wahanol bartïon.
Cafwyd araith gan bob parti cyn i'r
disgyblion a staff gael y siawns i
bleidleisio. Roedd y canlyniad yn agos
iawn ond 'Y Welsh Union' ddaeth i'r
brig y tro hwn. Pwy a wŷr - efallai bod
gwleidyddion y dyfodol yn ein plith!

Priodas Aur

Llongyfarchiadau i Graham a
Dilwen Watkins, 3 Heol y Gaer ar
ddathlu ei Priodas Aur ar ddiwrnod
olaf mis Ebrill.

Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau i Sioned Fflur
Davies, Tremyrafon am lwyddo
yn ei harholiad piano gradd 4 gyda
theilyngdod. Diolch i mam-gu, Eiry
Jones, Maesyllan, Llambled am ei dysgu.

Gwobr Arwr Anenwog

Enillodd Alan Wilson, sy'n aelod
o bwyllgor Clwb Rygbi Llanybydder
wobr Arwr Anenwog SSE SWALEC
am ei waith diflino i'r tîm dros 41 o
flynyddoedd.

Mae'n cefnogi'r clwb wrth
baratoi'r gwisgoedd a'r offer ymarfer
ac yn defnyddio ei sgiliau fel saer yn
y clwb a'r ystafelloedd newid.

Enillodd grys rygbi Cymru wedi ei
lofnodi gan gyn gapeiniaid Cymru a
thocynnau i weld rowndiau terfynol
SSE SWALEC.

Nod y wobr yw adnabod cyfraniad
i rygbi ar lawr gwlad a dathlu
ymrwymiad unigolyn sy'n gweithio
tu ôl i'r llenni bob blwyddyn.

Llongyfarchiadau mawr iddo a
diolch yn fawr am weithio mor galed
dros y gymuned.



Tyngrug-Ganol,
Cwmsychpant,
Llanybydder.

Annwyl Ffrindiau,

Helo blant, sut ydych chi? Gobeithio eich bod chi gyd wedi mwynhau eich gwyliu Pasg ac wedi bwyta digon o wyau siocled blasus! Sawl wy gawsoch chi? Gobeithio na fwytaoch chi ormod a chael bola tost!

Wel, gwnaeth nifer ohonoch chi fynd ati i liwio llun y gwningen Pasg fis diwethaf. Da iawn chi gyd. Roedd ganddoch chi luniau lliwgar iawn, yn enwedig rhai Betsan Gwladys o Langeitho, Holly Ann Davies o Graig Cefn Parc, Seren Mary Ling o Gwmann, Dwynwen Williams o Bencarreg, Lleucu Aur Jones o Bontrhydfendigaid ac Erin Potter-Jones o Drefach. Ond y gwningen mwyaf lliwgar y mis yma oedd un Fflur Meredith, 12 Penbryn, Llanbedr Pont Steffan. Llongyfarchiadau mawr i ti Fflur!

Mae'r tywydd wedi bod yn braf y mis hwn eto ac mae'r blodau yn dechrau tyfu yn y gerddi a'r cloddiau. Wrth ysgrifennu'r llythyr yma dwi'n edrych allan drwy'r ffenest ac yn gweld blodau o bob lliw. Blodau fel llygaid y dydd, dant y llew a briallu i enwi ond rhai. Felly beth am fynd ati mis yma i liwio'r ardd o flodau sydd gen i ger fy nhŷ? Cofiwch fod angen i'r blodau gael eu liwio'n daclus a lliwgar, a chofiwch ddychwelyd y llun mewn da bryd.

Ta ta tan toc



Enillydd
ymis!

Fflur
Meredith

Ariennir yn rhannol gan **Lywodraeth Cymru**



Enwau Lleoedd Lleol gan David Thorne



LLETYBYRFWCH A LLETY'R-MARCH (73)

Un o hen enwau diddorol plwyf Llanfihangel y Creuddyn yw 'Lletybyrfwch'.

Mae'r elfen 'llety' yn ddigon cyffredin ac yn golygu 'trigfan' neu 'westy'. Nid oes angen imi sôn ymhellach, felly, am yr elfen gyntaf. Ond gair llai cyffredin o lawer erbyn hyn yw 'byrfwch'. Mae'r enghreifftiau cynharaf yn dangos mai 'bwch gafr' oedd ei ystyr ar un adeg. Ond erbyn y bymthegfed ganrif, roedd wedi dod i ddynodi 'mochyn daear' ac mae sawl hanesyn ar glawr am helyntion hela'r byrfwch ac am waredu'r byrfwchod.

Enw arall ar yr un creadur yw'r 'pryf llwyd' neu'r 'broch' neu'r 'byrhwch' a'r 'byrrwch'. Er bod hela'r byrfwch neu'r byrfwch wedi bod yn arfer cyffredin yng nghefn gwlad tan yn ddiweddar iawn, prin iawn yw'r enghreifftiau o 'byrfwch' fel elfen mewn enwau lleoedd. Ac efallai bod rheswm da am hynny. Un esboniad posibl yw bod rhai o'r ystyron eraill a geir i 'byrfwch' yn peri i berchnogion tai ac eiddo ymbwyllo. Yng nghanol Ceredigion, er enghraifft, bydd 'byrfwch' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio person sarrug, anniben, anhaclus, blêr, blewog. Cyfuniad o ystyron digon amhleserus, at ei gilydd, ac anaddas i ddisgrifio cartref cysurus a pherchnogion parchus dybiedig y cartref.

Mae 'byrfwch' yn digwydd, yn ogystal, yn yr ymadroddion 'gwallt byrfwch' sef gwallt sydd heb ei gribo a 'ci byrfwch' sef ci â'i got hirflew yn ymdebygu i got gafr.

Yng Ngenau'r-glyn ceir 'Llety'r-march' ac mae ail elfen yr enw hwnnw yn digwydd yn gyffredin iawn mewn enwau lleoedd ar draws Cymru gyfan. Dyma ddynnaid o enghreifftiau y gwn i amdany'n nhw yn yr ardaloedd hyn: Clun-march (Llansawel); Gwaun-y-march (Llangathen); Caepwllmarch (Llanwenog); Cwm-march (Llandysul). Mae'r enghreifftiau hyn a'r llu mawr o enghreifftiau eraill tebyg yn dangos gymaint o barch oedd gan y Cymry i'r creadur hwn.

Roedd ein cyneidiau yn ymwybodol iawn o bwysigrwydd tras wrth farnu ansawdd ceffyl. Yn yr Oesoedd Canol roedd Powys yn enwedig yn enwog fel magwrfa ceffylau. Ym mrwydr Falkirk yn 1298 gwyddom fod traean o'r ceffylau a oedd gan Edward I yn tarddu o Bowys a derbynai'r Tywysog Llywelyn ap Gruffydd ddau ebol yn flynyddol o fridfeydd safonol abatai Cwmhir a Chymer. Dau o brif ddiddordebau'r Cymry, yn ôl Gerallt Gymro oedd amddiffyn eu mamwlad a gofalu am eu ceffylau.

Yn chwedl Branwen yn y Mabinogi rydym yn darllen am Efnisien yn anffurfio ceffylau Matholwch brenin Iwerddon. Yn y cyfnod cynnar roedd anffurfio ceffyl yn cael ei ystyried yn sarhad difrifol ym mhob cymdeithas ar draws Ewrop gyfan; a bu canlyniadau pellgyrhaeddol yn sgil gweithred drist Efnisien.

Trist, yn ogystal, yw gweld enw fel Cwm-march ger Pren-gwyn yn diflannu a ninnau heb y grym yn ein gwlad ni ein hunain i rwystro hynny. Ac mae'r cyrff rheini sydd â'r cyfrifoldeb statudol i amddiffyn treftadaeth Cymru yn hollol fud.

Mae'r nodiadau misol hyn ar enwau lleoedd yn cael eu paratoi dan nawdd Cymdeithas Enwau Lleoedd Cymru.

www.cymdeithasenwaulleoeddcymru.org

enwaulleoedd@gmail.com

Lansio Llyfr Newydd Inspector Ken



Y gynulleidfa yn mwynhau'r noson lansio.

Ken Lewis yn arwyddo'i lyfr i rai o'i ffrindiau yng Ngwesty'r Grannell, Llanwnnen.

Priodas dda



Priodas Gwennan Evans a Gruffudd Owen, Caerdydd ar ddydd Sadwrn Ebrill 4ydd 2015 yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth. Mae Gwennan yn ferch i John Rhys Evans a Gwyneth Evans, Glynhir, Pentrebach a Gruffudd yn fab i Michael a Gwyneth Owen, Pwllheli.

Gorsaf
Brawf
MOT

GAREJ BRONDEIFI



Heol Llanfair Road, Llambod, SA48 8JX

- * Gwasanaeth trwsio ac atgyweirio
- * Teiars am brisiau cystadleuol
- * Ceir newydd ac ail law ar werth
- * Batris * Brecs * Egsost
- * Gorsaf Brawf MOT Ceir a Beiciau Modur



Peiriant Golchi Ceir Poeth

01570 422305

07974 422 305

CYFRI

CYNGHORWYR ARIANNOL ANNIBYNNOL
INDEPENDENT FINANCIAL ADVISERS

23 Stryd y Coleg, Llanbedr Pont Steffan, SA48 7DY

T 01570 423823 E post@cyfri.co.uk W www.cyfri.co.uk

Am gyngor diduedd annibynnol ar amryw o faterion ariannol, yn cynnwys:
Buddsoddiadau, Pensiynau, Treth Etifeddiaeth, Yswiriant Bywyd, Yswiriant salwch difrifol ac Yswiriant diogelwch incwm.

Gary Davies BSc(Hons), Dip IP PFA

Beca Russell BSc(Hons), MSc(Hons), Dip PFS

Cysylltwch â ni am wasanaeth profesiynol y gallwch ymddiried ynddo.

Mae'n bosib i werth eich buddsoddiadau a'ch pensiwn gostwng yn ogystal â chynyddu. Nid ydych yn sicr o gael eich buddsoddiad gwreiddiol yn ôl. Os nad ydych yn cadw lan gyda'ch ad-daliadau mae'n bosib i chi dderbyn gorchymyn aiffeddiannu am eich cartref.

S4C



Parch

9.00

31 Mai

Flydd, Gobaith, Cariad, Cyfres ddrama newydd.

#parch

s4c.cymru



Eisteddfod Capel y Groes



Dan 8 cyfyngedig – Canu dan 8 oed – 1. Swyn Tomos, Ysgol Llanwnnen. 2. Steffan Jarman, Ysgol Llanwnnen. 3. Erin Potter-Jones, Ysgol Llanwenog. Adrodd dan 8 oed – 1. Fflur Morgan, Ysgol Llanwenog. 2. Swyn Tomos, Ysgol Llanwnnen. 3. Steffan Jarman, Ysgol Llanwnnen. 8 oed tan oed gadael ysgol gynradd cyfyngedig – Canu – 1. Nia Morgans, Ysgol Cwrtnewydd; 2. Nia Beca Jones, Capel y Groes. 3. Lois Jones, Ysgol Cwrtnewydd. Llefaru – 1. Lois Jones, Ysgol Cwrtnewydd. 2. Luned Jones, Ysgol Cwrtnewydd. 3. Elan Morgan, Ysgol Llanwenog. Bardd y Gadair: Enillwyd cystadleuaeth y gadair i rai o dan 21 oed am ei stori yn Eisteddfod Gadeiriol Capel y Groes, Llanwnnen gan Sioned Martha Davies, Gwyddgrug ger Pencader. Darllen o'r Ysgrythur - Darllen o'r Ysgrythur dan 16 oed – 1. Sara Elen Jones, Cwmann [chwith]. 2. Megan Teleri Davies, Llanarth [canol] 3. Elin Fflur Jones, San Clêr [dde]. Parti Canu – Ysgol Bro Pedr yn ennill cystadleuaeth Parti Canu i Ysgolion Cynradd gyda'i hyfforddwraig Lowri Elen Jones. Deuawd dan 16 – Enillwyd y deuawd dan 16 gan Sara Elan a Beca Ann o Gwmann. Sioned Davies - Sioned Davies, Llanybydder enillodd yr Unawd a'r Llefaru 10-12 oed a'r Unawd ar unrhyw Offeryn Cerdd gan gynnwys y piano dan 12 oed. Dan 12 [Agored] – Canu 10-12 – 1. Sioned Davies, Llanybydder. 2. Nia Beca Jones, Llanwnnen. 3. Nia Eleri Morgans, Gorsgoch. Llefaru 10-12 – 1. Sioned Davies, Llanybydder. Canu Emyr – Canu Emyr dan 12 oed – 1. Alwena Mair Owen, Llanllwni. 2. Megan Mai Jones, Llanwnnen. 3. Nia Eleri Morgans, Gorsgoch. Cyhoeddir rhai o'r cyfansoddiadau ar dudalen 20.